Esgobaeth Tyddewi

Cynhadledd Esgobaethol

Ysgol Bro Pedr, Llanbedr Pont Steffan

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth
stdavids.churchinwales.org.uk/cy/

AGENDA ac AMSERLEN

Sesiwn 1: 9.30-11.25

9.30am ymlaen	Cofrestru
	Paned a Bisgedi
9.45am	Rheolau'r Gynhadledd ac Etholiadau
10.00am	1. Croeso'r Llywydd
10.05am	2. Addoliad/Gweddïau Agoriadol
10.15am	3. Ymddiheuriadau
	4. Cofnodion cyfarfod 4 Hydref 2025
	5. Derbyn Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog
	6. Cynnig ar Bwerau'r Cyfarfod Llawn
10.45am	7. Adroddiad Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth a Chyflwyniad Ariannol
11.25-11.45	**Hoe Paned**

Sesiwn 2: 11:45-1.00pm

11.45am	8. Diweddariad ar *Tocio am Dyfiant*
	9. Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau a'r Byrddau
12.10pm	10. Blwyddyn Cenhadaeth – *Agored i Dduw*
	• Adolygiad o Flwyddyn 1 • Edrych ymlaen at Flwyddyn 2
12:40pm	11. Adborth gan y Corff Llywodraethol
	12. Diogelu
	13. Y Siarter Urddas
	14. Briff ar y Gweithdai

Cinio: 1.00pm-2:00pm

Sesiwn 3: 2:00-4:30pm

2.00pm	15. Gweithdai
3.30pm	16. Canlyniadau'r Etholiad
3.50pm	17. Addoliad Terfynol ac Anerchiad y Llywydd
	Ffarwelio

Sesiwn 1 – Cadeirydd: Hyb Paul Mackness

Agorwyd y Gynhadledd am 9:30am er mwyn caniatáu i aelodau gofrestru ac ymuno.

1. **Gair o Groeso gan y Llywydd**

- Croesawodd yr Esgob y cynadleddwyr a'r gwesteion.
- Ailadroddodd fod presenoldeb yn y Gynhadledd Esgobaethol yn ddisgwyliad ac nid yn ddewis i'r clerigwyr. Gallai absenoldeb (heblaw am salwch neu brofedigaeth) arwain at gamau disgyblu.
- Anogwyd cynadleddwyr a gwesteion i aros drwy'r dydd cyfan, gan gynnwys y Cymun Bendigaid.

Llongyfarchodd yr Esgob:

- Y Deon a staff y Gadeirlan am gynnal Comisiwn Rhyngwladol y Ddeialog Ddiwinyddol Anglicanaidd-Orthodocsaidd.
- Y Gwir Parchedig a'r Foneddiges Sarah Mullally ar ei phenodiad fel Archesgob Caergaint.

2. **Addoliad Agoriadol / Gweddïau**

- Agorodd Hyb Mones Farah mewn gweddi.
- Addoliad dan arweiniad y Parch Wyn Maskell a'r Parch Heulwen Evans.
- Darlleniadau: Mr Morgan Davies a Ms Laura Cait Driscoll.

Daeth Archddiacon Tyddewi i'r Gadair ar wahoddiad yr Esgob.

3. **Busnes Ffurfiol y Gynhadledd ac Ymddiheuriadau**

Cynghorodd Hyb Paul Mackness:

- Bod Rheolau Sefydlog mewn grym.
- Bod aelodau'n cael eu hannog i ddefnyddio'r Gymraeg
- Wrth siarad, gofynnwyd i'r aelodau roi eu henwau a'u Hardal Weinidogaeth Leol (AWL).

Rhoddwyd esboniad ar gymhwysedd pleidleisio, gan gyfeirio at y Cyfansoddiad.

Ymddiheuriadau:

- 7 o glerigwr yn sâl.
- 7 ymddiheuriad arall gan glerigwyr.
- 1 clerigwr ar gyfnod sabothol.
- 45 ymddiheuriad gan aelodau lleyg.
- 6 aelod lleyg heb ymateb.
- Roedd 5 bathodyn clerigol heb eu hawlio yn yr atriwm (o'r rhain, nodwyd fod 2 aelod yn sâl ac un arall yn anhwylus).

4. Cofnodion Cynhadledd Esgobaethol 5 Hydref 2024, PCDDS – Campws Caerfyrddin

- Roedd y cofnodion eisoes wedi'u dosbarthu. Ni chafwyd unrhyw ddiwygiadau.

Cynigiodd Parch Neil Hook, ac eiliodd Parch Will Lambert, y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

O blaid: Mwyafrif llethol yr Aelodau.
Yn erbyn: Dim.
Ymatal: Dau.
Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion.

5. Derbyn Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog

Cynigiodd Mr Tim Llewelyn (AWL Bro Caerfyrddin, Cadeirydd y BCE a'r Is-gadeirydd ymadawol o'r Pwyllgor Sefydlog), ac eiliodd yr Esgob (Llywydd y Pwyllgor Sefydlog), fod y Gynhadledd yn derbyn yr adroddiad.

Gofynnodd Hyb Paul Mackness am sylwadau, cwestiynau neu ddadleuon.

Ni chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

Pleidleisiodd yr aelodau'n unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

6. Cynnig ar Bwerau'r Cyfarfod Llawn

Cyflwynodd Mr Tim Llewelyn y Cynnig a chynigiodd y dylai'r Aelodau ganiatáu rhoi Pwerau Llawn i Bwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethol i gynnal busnes y Gynhadledd rhwng cyfarfodydd. Eiliwyd y cynnig gan yr Esgob.

Gofynnodd Hyb Paul Mackness am sylwadau, cwestiynau neu ddadleuon.
Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau.

Pleidleisiodd yr Aelodau.
O blaid: Mwyafrif llethol.
Yn erbyn: Dim.
Ymatal: Un.
Pasiodd y cynnig.

7. Cyflwyniad i'r Flwyddyn Genhadaeth

Gwahoddwyd Hyb Mones Farah i gyflwyno'r Flwyddyn Genhadaeth, *Agored i Dduw* (i ddechrau ar Sul yr Adfent).
Diben *Agored i Dduw* oedd:

- Adfywio Cenhadaeth ledled yr Esgobaeth.
- Dyfnhau disgyblaeth.
- Annog efengylu.
- Cynyddu hyder wrth rannu ffydd.
- Hyrwyddo twf yr Eglwys.

Arweiniodd Canon Sheridan James gyflwyniad.

Anogwyd yr Ardaloedd Gweinidogaethol Leol (AGL) a'r eglwysi i:

- Dyfu mewn ffydd.
- Dyfu mewn hyder a llawenydd yn yr Efengyl.
- Dyfu mewn nifer.

Roedd y Flwyddyn Genhadaeth wedi'i seilio ar bum llinyn: **CODE F =** (**C**elebration) Dathlu, (**O**utreach) Estyn Allan, (**D**iscipleship) Disgyblaeth, (**E**vangelism) Efengylu a (**F**ellowship) Brawdoliaeth.
Anogwyd yr AGL i integreiddio'r pum elfen hyn yn eu bywyd a'u cenhadaeth, gan anelu at:

1. Digwyddiad *Agored i Dduw* dros benwythnos y Pentecost, gyda phob Ardal Weinidogaethol Leol (AWL) yn dod â bws llawn o bobl.
2. Bob eglwys yn anelu at gyflawni o leiaf un gweithgaredd CODE F, a phob AWL yn anelu at drefnu o leiaf dau ddigwyddiad â ffocws cenhadol yn 2026, megis:
   • Grŵp profedigaeth
   • Grŵp gweddi
   • Grŵp disgyblaeth
   • Dangos ffilm
   • Pererindod

Roedd y tîm *Agored i Dduw* ar gael i gefnogi'r AGL. Byddai'n wych dathlu'r digwyddiadau CODE F a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yng Nghynhadledd Esgobaethol 2026.

Diolchodd Hyb Mones Farah i Ganon James ac anogodd aelodau i gofrestru ar gyfer y gweithdai a gynhelid ar ôl cinio.
Cynghorodd hefyd y byddai pob Aelod yn derbyn llyfrnod weddïo, ynghyd â chrynodeb a chanllaw gweithdy CODE F i'w cymryd yn ôl i'w Hardaloedd Gweinidogaeth Leol.

Diolchodd Hyb Paul Mackness i'r Hyb Mones Farah a gwahoddodd Mrs Sue Henley i'r Gadair.
(Dechreuodd Sesiwn 2 yn gynnar gan fod yr eitemau blaenorol wedi dod i ben yn gynt na'r disgwyl).

Sesiwn 2 – Cadeirydd: Mrs Sue Henley

7. Adroddiad y Bwrdd Cyllid Esgobaethol (BCE)*(Nodwyd gwall yn rhifo'r Agenda - dwy rhif 7.)*

Gwahoddodd Mrs Sue Henley sylwadau neu gwestiynau ar Adroddiad y Bwrdd Cyllid Esgobaethol.

Siaradodd Mr Tim Llewelyn (AWL Bro Caerfyrddin a Chadeirydd y BCE) ynghylch yr adroddiad.

Diolchodd i gyn-gadeirydd y Bwrdd Cyllid, Mrs Hazel Evans, am ei harweinyddiaeth a'i holl waith.

Dywedodd fod gweledigaeth eglur yr Esgob ar gyfer y dyfodol wedi rhoi hyder i'r Bwrdd ei fod mewn dwylo diogel iawn.

Roedd heriau ariannol yn bryder sylweddol, gyda dyledion Cyfran y Weinidogaeth yn fwy na £2filiwn dros gyfnod o bum mlynedd. Heb ymyrraeth, gallai ansolfedd fod yn risg o fewn y pum mlynedd nesaf.

Roedd yn gyfnod anodd i eglwysi, ond mynegwyd gwerthfawrogiad dwys am ymdrechion y 75% o eglwysi a oedd wedi talu eu cyfraniadau Cyfran y Weinidogaeth yn llawn.

Roedd gwaith mawr wedi'i wneud ar *Docio am Dyfiant*, gyda Cham 1 wedi'i gwblhau a Cham 2 yn datblygu'n dda. Gwaith hanfodol i nodi lle'r oedd angen cefnogaeth a hefyd gwneud penderfyniadau anodd oedd hi.

Diolchwyd i Gofrestrydd yr Esgobaeth, Mr Arwel Davies, a'r Hyb Ddr Matthew Hill am eu harweinyddiaeth a'u harloesedd. Cyflwynwyd cais ganddynt i Gronfa Twf yr Eglwys yng Nghymru i lansio menter a fyddai'n fuddiol i'r Esgobaeth gyfan. Byddai diweddariadau yn dilyn.

Croesawodd y BCE aelodau newydd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, gan ddod â phersbectifau newydd ac egni ffres i'w waith. Diolchodd i'r aelodau oedd wedi gadael y Bwrdd, wedi terfyn eu tymor, am eu hir gwasanaeth ac am eu cyfraniadau amhrisiadwy.

Byddai'r DBF yn ffarwelio â'r Ysgrifennydd Esgobaethol, Mr Howard Llewellyn, ar ddiwedd y flwyddyn. Diolchwyd iddo am ei arweinyddiaeth ragorol a'i gyngor cyson, yn enwedig yn ystod pandemig Covid. Roedd ei ddoethineb, ei bresenoldeb tawel a'i ymroddiad diwyro wedi helpu i lywio'r Bwrdd drwy gyfnodau ansicr gydag eglurder a phwrpas. Nodwyd ei bod wedi bod yn fraint gweithio ochr yn ochr ag ef, a chydnabuwyd y byddai ei gyfraniad a'i ddylanwad yn cael eu teimlo ymhell ar ôl iddo ymddeol o'i rôl. Dymunwyd pob hapusrwydd iddo ef a'i wraig, Rosemary, i'r dyfodol, ynghyd ag iechyd da ac anturiaethau haeddiannol.

Roedd Mrs Hazel Evans wedi camu o'r neilltu fel Cadeirydd y Bwrdd yn 2025. Talwyd teyrnged i'w gwasanaeth a diolchwyd iddi am ei chefnogaeth i'r Esgob, i Is-gadeiryddion y Bwrdd, yr Archddiaconiaid, yr Ysgrifennydd Esgobaethol a staff yr Esgobaeth. Roedd ei harweinyddiaeth wedi bod yn fendith wirioneddol. Dymunwyd pob llwyddiant iddi wrth iddi gychwyn ar bennod newydd yn ei bywyd. Bu ei hymroddiad diflino i wasanaeth cyhoeddus yn ysbrydoliaeth i lawer, a mynegwyd hyder y byddai'n parhau i gyfrannu'n sylweddol at fywyd cymunedol gyda'r un brwdfrydedd ac ymrwymiad. Estynnwyd dymuniadau gorau ati hi, ei gŵr Gareth, a'u cydymaith ffyddlon, Sooty, am ddyfodol llawn llawenydd, gorffwys haeddiannol, a nifer o anturiaethau. Roedd Mrs Evans wedi gadael argraff barhaol, a bydd etifeddiaeth ei gwasanaeth a'i hymrwymiad yn parhau i ddisgleirio.

(Cymeradwyodd yr aelodau)

Diolchodd yr Esgob i Mrs Hazel Evans am ei chymorth yn ystod y flwyddyn a hanner diwethaf, gan ei disgrifio fel ffrind iddo ef a'r Esgobaeth gyfan; roeddynt yn ddyledus iddi am ei harweiniad ac yn dymuno'n dda iddi hi a'i gŵr am y dyfodol.

Diolchodd hefyd i Mr Tim Llewelyn am dderbyn ei wahoddiad i ddod yn Gadeirydd y Bwrdd, gan ei ddisgrifio fel gweledydd ac arbenigwr yn ei faes.

Yn ogystal, diolchodd i Mr Howard Llewellyn am ei ddoethineb, ei farn, gallu, cyfeillgarwch a'i gyngor, yn enwedig dros y flwyddyn a hanner diwethaf. Dywedodd y byddai'n cael ei golli'n fawr; roedd yr Esgobaeth yn gwerthfawrogi popeth yr oedd ef wedi ei wneud. Roedd gobaith y byddai'n parhau i gynnal cysylltiad gydag Esgobaeth Tyddewi; bydd drysau Llys Esgob bob amser yn agored iddo.

Dymunodd yr Esgob bob bendith, iechyd a gras Duw i Mr Llewellyn a Mrs Evans.
(Cymeradwyodd yr aelodau)

Diolchodd Mrs Sue Henley i'r Esgob a gofyn Aelodau am sylwadau a chwestiynnau.

C1. Y Parch Ganon Ann Howells (AWL Bro Sancler)
Ar y rhestr cronfeydd incwm cyfyngedig mae yna linell ar gyfer "Cronfa Wrth Gefn Yswiriant Eglwysi", sy'n dangos balans o £56,517 ar 31 Rhagfyr. Gan fod yr AGL erbyn hyn yn talu am eu hyswiriant eu hunain, ac nid yw'n cael eu talu gan Swyddfa'r Esgobaeth, oes bwriad i ddychwelyd yr arian i'r AGL perthnasol, fel ein bod yn cael cronfa fach wrth gefn. Os nad ydym yn derbyn yswiriant gan yr Eglwysi, gallwn ddefnyddio arian y gronfa. Oes bwriad i wneud hynny? Diolch.

C2. Jerry Ford (AWL Dyffryn Teifi)
Mae'r cyfrifon yn dangos trosglwyddiad o £400,000 o gronfeydd anghyfyngedig i gronfeydd cyfyngedig, tybed beth yw'r rhesymeg dros wneud hyn? Mae'n lleihau'r cronfeydd anghyfyngedig o hanner miliwn o bunnoedd, bydd hwn yn sicr yn effeithio ar Gyfran y Weinidogaeth.

Galwyd ar Mr Tim Llewelyn i ymateb i'r cwestiynau.

Diolchodd i Barch Ganon Ann Howells am ofyn C1. Cynghorodd y byddai'n adolygu telerau'r gronfa gyfyngedig gyda Mrs Nia Evans, Rheolwr Cyllid. Cynghorodd Hyb Paul Mackness ei fod e'n medru dweud wrth Aelodau beth oedd y telerau, gwahoddwyd ef i siarad.

Esboniodd ef fod y gronfa'n cael ei defnyddio i dalu yswiriant eglwysi caeedig fel nad oedd hynny'n faich ar eglwysi agored. Roedd yn gronfa gyfyngedig at y diben penodol hwnnw, nid oedd yr arian wedi ei gymryd o gyfraniadau yswiriant eraill.

Diolchodd Mr Tim Llewelyn i Mr Jerry Ford am C2 – cynghorodd y byddai angen trafodaeth fer gyda'r Rheolwr Cyllid, Mrs Nia Evans, a chafodd caniatad wrth y Cadeirydd i ddychwelyd gydag ateb i'r Gynhadledd ar ol yr egwyl.

Cynigiodd Mr Tim Llewelyn, ac eiliodd yr Athro Andrew Henley (Is-gadeirydd y BCE), fod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

Pleidleisiodd Aelodau.
O blaid: mwyafrif llethol
Yn erbyn: dim
Ymatal: un

Galwyd yr Athro Andrew Henley i siarad ynghylch Cyllideb 2026.

Cyflwynodd yr Athro Andrew Henley drosolwg o gyllideb 2026:

- Gwariant arfaethedig = £5.2 miliwn
- Incwm disgwyliedig = £4.93 miliwn
- Diffyg rhagweladwy = ychydig llai na £300,000, i'w ariannu o gronfeydd wrth gefn

Nododd:

- Nid oedd cynnydd yn y cyfanswm Cyfran Gweinidogaeth yn 2024-25.
- Cynigiwyd cynnydd o 4% yn 2026 (gan adlewyrchu'r cynnydd cyflog a gymeradwywyd a chytunwyd ar gyfer clerigwyr ledled yr Eglwys yng Nghymru).

Prif feysydd gwariant:

- Cyflogau clerigwyr: 56%
- Staff nad ydynt yn glerigwyr: 14%
- Costau eiddo (er mwyn cynnal y portffolio eiddo): 17%
- Costau gweithredol eraill: y gweddill

Roedd y Grŵp Cyllideb wedi gweithio trwy linellau'r gwariant mewn manylder i ganfod arbediadau y gellir eu gwneud, ond bydd yn rhaid ariannu diffyg o bron £300,000.

Darpariaeth Clerigwyr

- 78 swydd clerigwr cyfwerth ag amser llawn (FTE)
- Posibilrwydd o gynyddu hyn o 3.5 swydd FTE pe bai'r cyfle'n codi

Cyfran y Weinidogaeth:

- Cyfanswm i'w ofyn gan AGL yn 2026: £3,911,603
- Yn cynrychioli mwy na 79% o incwm cyfan y BCE.
- Ychydig iawn o incwm sylweddol o ffynonellau eraill.
- Cefnogaeth gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru: 14.5%

Nodwyd na fyddai ariannu diffygion o gronfeydd wrth gefn yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Byddai osgoi'r diffyg yn llwyr yn golygu cynnydd o 16.5% yng Nghyfran y Weinidogaeth, a ystyrid yn annymunol ac yn anymarferol.

Efallai byddai'r broses *Tocio am Dyfiant* yn cael effaith yn y dyfodol, ond roedd cynnal sefydliad clerigol yr Esgobaeth yn hanfodol i genhadaeth a thwf yn y dyfodol.

Ariannu gan y Corff Cynrychiolwyr
Derbyniodd y Gynhadledd ddiweddariad ar y cynnig a gyflwynwyd gan yr Hyb Mones Farah yn gofyn i'r Corff Cynrychiolwyr ystyried cynnydd yn lefel ei gefnogaeth ariannol i'r Esgobaeth. Derbyniwyd y cynnig gan Gorff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru.

Gobeithiai'r Esgobaeth y gallai hyn arwain at:

- Gynnydd yn y 14.5% a ddarperir ar hyn o bryd
- Mwy o hyblygrwydd ariannol i'r Esgobaeth yn y dyfodol

Cynigiodd yr Athro Andrew Henley, ac eiliodd Mr Tim Llewelyn, fod Cyllideb 2026 yn cael ei derbyn.

Diolchodd Mrs S Henley i'r Athro A Henley ac i Mr Tim Llewelyn a gofyn Aelodau am sylwadau a chwestiynnau, gan nodi nad oedd modd diwygio neu newid y Gyllideb.

C1. Mr Jerry Ford (ALI Dyffryn Teifi)

Ni chredaf fod gan unrhyw un ddealltwriaeth ddigon manwl i herio'r gyllideb; rydym yn cydnabod pa mor heriol yw hi. Teimlaf fod dweud nad oes cynnydd cyffredinol yn y Gyfran Weinidogaeth o'i gymharu â'r llynedd yn anwybyddu'r ffaith bod cynnydd sylweddol wedi bod i nifer sylweddol o eglwysi, neu o leiaf i nifer sylweddol o AGL. Bydd cynnydd pellach o 10% eleni, os yw'r model Cyfran Weinidogaeth i barhau, ac yna 10% y flwyddyn nesaf, 10% y flwyddyn ar ôl hynny, ac yna cynnydd diderfyn ar sail y ffigur amcangyfrifed, ar ben y cynnydd blynyddol o 4% eleni. Felly, credaf ei bod ychydig yn gamarweiniol dweud nad oedd cynnydd cyffredinol yng nghyllideb y Gyfran Weinidogaeth am y llynedd. Mae hynny'n tueddu i anwybyddu'r ffaith bod effaith sylweddol ar nifer o AGL.

C2. Y Parchedig Hybarch Dr Matthew Hill (Archddiacon Caerfyrddin)
Hoffwn wneud sylw i atgyfnerthu'r ffaith bod rhagdybiaeth yn y gyllideb bod y Gyfran Weinidogaeth yn cael ei dalu'n llawn, ac fe welwch y cyfraddau diffyg talu. Felly, am bob canran o ddiffyg talu, bydd y diffyg a welsom yn cynyddu. Mae'n bwysig pwysleisio bod rhagdybiaeth yn y gyllideb bod y Gyfran Weinidogaeth yn cael ei dalu'n llawn; ble bynnag mae'r diffyg, po fwyaf fydd diffyg yn y gyllideb.

C3. Y Parchg William Lambert (AWL De-orllewin Penfro)
Nid cwestiwn, ond yn hytrach sylw neu fyfyrdod. Gobeithiaf nad wyf yn camddeall y ffordd y mae'r gyllideb yn cael ei chyflwyno ond, mae'n ymddangos oherwydd y byddaf yn derbyn cynnydd cyflog o 4% o fis Ionawr ymlaen, y bydd Cyfran Weinidogaeth yr AGL yn cynyddu 4% oherwydd bod pobl fel fi yn derbyn cynnydd. A dweud y gwir, rwy'n ei chael yn anodd. Oherwydd ein bod yn cael ychydig mwy o arian yn ein pocedi, mae mwy a mwy o alwadau yn cael eu gosod ar ein plwyfolion o fewn yr AGL. Nid oes llawer y gallwn ei wneud am hynny gan ei fod yn gwbl haearnaidd; mae'n debyg gallwch ddweud, "Wel Will, os nad wyt ti eisiau'r 4%, gallet ti ei roi i gyfrif yr AWL", ac ie, mae hynny'n un peth da i'w wneud. Ond hoffwn fynegi anghysur personol, oherwydd bod eraill yn gorfod gwneud aberthau, ac rwyf am herio fy hun a'm cydweithwyr yma ynglŷn â'r hyn y gallwn ei wneud i rannu'r baich.

Gwahoddwyd yr Athro Andrew Henley i ymateb i'r cwestiynau/sylwadau:

C1. *Symudwyd cyfrifo'r Gyfran Weinidogaeth i lefel yr AWL, ac mae'r model ar gyfer cyfrifo'r Gyfran Weinidogaeth hefyd wedi newid, gan gyd-fynd yn llawer agosach â'r arfer yn holl Esgobaethau eraill yr Eglwys yng Nghymru. Rydym yn symud i ffwrdd o fodel sy'n seiliedig ar bresenoldeb hanesyddol oherwydd yr holl anawsterau y mae hynny wedi'u creu. Mae hyn yn golygu bod y model yr ydym yn symud tuag ato yn seiliedig ar ddarparu cefnogaeth glerigol. Rwy'n gwerthfawrogi bod hyn yn ddadleuol ac yn anodd mewn rhai ardaloedd, yn enwedig lle mae AGL yn ei chael yn anodd i lenwi swyddi gwag ymhlith y clerigwyr. Dyna'r model yr ydym yn gweithio tuag ato ac mae'n golygu, er bod cyfanswm y Gyfran Weinidogaeth y gofynnodd y Corff Cyllid Esgobaethol amdani ar draws yr Esgobaeth wedi aros yn wastad mewn eww yn unig rhwng 2025 a 2026, roedd yna ennillwyr a cholledwyr yn y broses honno. Os byddwn yn newid y system, bydd rhai yn elwa ac eraill yn colli, a dyna'r cyfan y gallaf ei ddweud mewn gwirionedd.*

C2. *Adferiad y Gyfran Weinidogaeth: mae'r cyfraniad eleni ychydig yn uwch nag yr oedd ar yr un adeg y llynedd. Y ffigur diweddaraf a gefais gan Nia, ein Rheolwr Cyllid, yw ein bod wedi derbyn tua 76% o'r Gyfran Weinidogaeth yr oeddem wedi gofyn amdani hyd at y pwynt hwn yn y flwyddyn.*

Diolchodd Mrs Sue Henley i'r Athro A. Henley am ei ymatebion, ac yna cyflwynwyd y cynnig i dderbyn Cyllideb 2026 i bleidlais.
O blaid: Mwyafrif llethol.
Yn erbyn: Tri.
Ymatal: Tri.

Gwahoddwyd Mr Tim Llewelyn i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Ad-dalu'r Gyfran Weinidogaeth. Roedd y BCE wedi cymeradwyo Cynllun Ad-dalu ar gyfer 2025 yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2025.

Byddai'r Cynllun Ad-dalu yn gweithredu fel a ganlyn:

Cyfran Weinidogaeth a Dalwyd	Ad-daliad
100%	4%
75%	3%
50%	2%
25%	1%

Pwyntiau Pwysig

- Cyfrifir y cynllun ar lefel yr AWL (nid ar lefel eglwys unigol).
- Byddai cyfathrebiad ffurfiol yn cael ei ddanfon at Ddeoniaid, Cadeiryddion a Thrysoryddion yr AGL i gadarnhau'r union ddyddiad ym mis Ionawr erbyn pryd y byddai'n rhaid derbyn cyfraniadau ar gyfer 2025.
- Byddai'r AGL yn penderfynu sut i ddosbarthu'r ad-daliad rhwng eu heglwysi.
- Er gwaethaf cost y cynllun, mae wedi annog cyfraniadau na fyddent efallai wedi'u gwneud fel arall.
- Nid oedd sicrwydd y bydd y cynllun yn parhau mewn blynyddoedd i ddod.

Rhoddwyd diolch i'r holl AGL ac Eglwysi a oedd wedi gweithio'n galed i gyflawni'u cyfraniadau 2025. Atgoffodd yr aelodau o eiriau'r Esgob 'Dim ond s*caffaldwaith yw'r Gyfran Weinidogaeth a chyllid yr Esgobaeth, sy'n galluogi'r Esgobaeth i ymgymryd â'i gwir waith o Genhadaeth a Gweinidogaeth."*

Diolchodd Mrs S Henley i Mr T Llewelyn am y diweddariad.

Torrodd Sesiwn 2 am goffi. Rhoddodd Mrs Henley esboniad o'r trefniadau pleidleisio ar gyfer yr etholiadau.

Ailddechreuodd Sesiwn 2 am 11:50.

Ailddechreuodd Mrs S. Henley yn y Gadair ac atgoffodd bawb fod y Rheolau Sefydlog mewn grym.

Gwahoddwyd Mr Tim Llewelyn i siarad, a chynghorodd ei fod ef a Mrs Nia Evans, y Rheolwr Cyllid, wedi trafod y trosglwyddiad o £400,000 o'r gronfa anghyfyngedig i'r gronfa gyfyngedig (fel y codwyd yn Sesiwn 1, Adroddiad y BCE, ac mewn cwestiwn a gyflwynwyd gan Mr Jerry Ford o AWL Dyffryn Teifi). Roedd hyn yn ymwneud â'r Bwrdd Persondai a gofyniad blynyddol y BCE i dalu tua £5,000 tuag at gynnal a chadw parhaus bob persondy. Roedd Cronfa'r Bwrdd Persondai yn gronfa gyfyngedig, tra nad oedd Cronfa'r BCE wedi'i chyfyngu. Digwyddodd y trosglwyddiad er mwyn galluogi'r Corff Cyllid Esgobaethol i dalu ffioedd y Bwrdd Persondai. Mae'r Bwrdd Persondai a chyrff eraill yn talu ffioedd gweinyddol yn ôl i'r BCE, ac felly roedd y £400,000 yn ffigur net. Gellid darparu dadansoddiad llawn ar gais.

Diolchodd Mrs S. Henley i Mr T. Llewelyn am yr esboniad a gwahoddodd Hyb Paul Mackness i gyflwyno'r eitem ganlynol:

8. Diweddariad ar *Tocio am Dyfiant*

Cam 1

- Wedi'i gwblhau.
- Pob eglwys wedi'i hasesu a'i rhestru yn ôl meini prawf a gytunwyd.

Cam 2

- Gobaith ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd.
- Cymerodd eglwysi ran mewn cyfweliadau strwythuredig gan ystyried:
    - Cryfderau
    - Gwendidau
    - Gobeithion a dyheadau
    - Cyfleoedd cenhadol lleol (arwyddion o dwf yn amlwg mewn rhai llefydd yn barod)

Cam 3

- I'w gwblhau erbyn Pasg 2026.
- Y Grŵp Garddio i adolygu canlyniadau Cam 2 a gwneud argymhellion i'r AGL.
- Bydd angen i'r AGL rannu'r argymhellion gyda'r eglwysi unigol.
- Ceisir sylwadau adeiladol ar yr argymhellion.
- Os dderbynnir unrhyw sylwadau sarhaus, gallent gael eu cyfeirio at Siarter Urddas yr Eglwys yng Nghymru. Derbynnir unrhyw gywiriadau i wybodaeth anghywir neu sydd wedi'i gamddeall.
- Bydd eglwysi'n gallu cyflwyno sylwadau os nad ydynt yn cytuno ag argymhelliad.
- Bydd y Grŵp Garddio yn ystyried yr holl ymatebion ac yn addasu'r argymhellion lle bo angen.
- Gofynnwyd i Gadeiryddion yr AGL sicrhau amser ar agendâu cyfarfodydd i drafod argymhellion y Grŵp Garddio.

Cam 4

- Argymhellion terfynol rhwng diwedd Pasg (2026) hyd at ddiwedd Gorffennaf.
- Bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu hystyried gan:
    - Yr Esgob
    - Uwch Staff
    - Y BCE
    - Y Pwyllgor Sefydlog
    - Y Pwyllgor Bugeiliol ac Eglwysig

Bydd gan yr uchod rhan benodol yn y broses, er bydd cyfrifoldeb y trosolwg cyffredinol gyda'r Esgob. Bydd y Cyngor yr AWL hefyd yn cael gwybod am yr argymhellion terfynol. Y gobaith yw y bydd gweithredu'r argymhellion yn dechrau o Haf 2026 ymlaen.

Gallai argymhellion gynnwys:

- Cau eglwys
- Newidiadau i amserlen gwasanaethau
- Blaenoriaethu rhai eglwysi
- Cyfnodau adolygu

Pwysleisiodd yr Archddiacon:

- Nad oedd rhestr "Beeching" o eglwysi i'w cau.
- Un eglwys yn unig yn Archddiaconiaeth Tyddewi sydd wedi'i ddynodi i gau ar hyn o bryd.
- Bydd eglwysi eraill yn cael eu hadolygu mewn 1, 2, 3 neu 5 mlynedd.
- Mae rhai eglwysi a gallai wynebu cael eu cau wedi dangos arwyddion calonogol o adnewyddiad drwy ymgysylltu â'r broses *Tocio am Dyfiant*. Byddai'n deg rhoi amser iddynt i brofi tyfiant.

Nod *Tocio am Dyfiant* yw gosod yr Esgobaeth ar sail genhadol, fel ei bod hi'n edrych tuag allan, at y rhai sydd y tu allan i'w heglwysi a'u gwahodd nhw i mewn. I roi iddynt y cyfleoedd sydd gyda ni wrth brofi cariad Duw, gwybod ein hachubwr Iesu Grist ac wrth gael ein galluogi gan Ei Ysbryd Glân.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau.

Diolchodd Mrs Sue Henley i bawb a fu'n rhan o'r broses Tocio am Dyfiant; mi oedd hi'n dasg enfawr.

Cyflwynodd hi'r eitem nesaf han wahodd Hyb Ddr Matthew Hill (Archddiacon Caerfyrddin) i gynnig fod aelodau'n derbyn yr adroddiadau.

9. Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau a'r Byrddau

[Yn Gymraeg] Nododd Hyb Ddr Matthew Hill ei gydnabyddiaeth a'i werthfawrogiad am waith called yr holl aelodau oedd yn gwasanaethu ar Fyrddau a Phwyllgorau'r Esgobaeth. Pwysig oedd i'r Gynhadledd i gydnabod y gwaith pwysig a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn.

Cynigiodd dderbyn yr adroddiadau, ac eiliwyd y cynnig gan Hyb Eileen Davies (Archddiacon Ceredigion).
[Yn Gymraeg] Diolchodd yr Hybarch Eileen Davies hefyd i bawb a oedd wedi rhoi o'u hamser a'u harbenigedd i sicrhau llwyddiant Esgobaeth Tyddewi ac i gefnogi gwaith yr Arglwydd yn yr Esgobaeth.
Gwahoddodd Mrs Sue Henley cwestiynnau neu sylwadau.

C1. Ms Vicky Tomlinson (AWL De-orllewin Penfro)

Nid ydw i'n deall sut yn union mae'r system yn gweithio, ond mae'n ymddangos fod bach o broblem cyfathrebu wedi bod. Nid oeddwn yn ymwybodol o'r papurau perthnasol nes ychydig ddyddiau yn ôl. Ces i fynediad at yr adroddiadau yn ystod wythnos diwethaf; mae'n llawer iawn o wybodaeth i'w hystyried. Byddai o help i gael gwybod pryd mae'r wybodaeth ar gael. Rwy'n dueddol o ddod yma gan feddwl 'Oes angen yr holl bwyllgorau?' 'Oes rhaid i mi ddarllen 60 neu 70 o dudalenau?' Mae'n llawer o wybodaeth i'w hystyried ac i bleidleisio drosto, efallai mewn amser rhy fyr.

Diolchodd Hyb Paul Mackness i Ms Tomlinson am y cwestiwn.
Ymatebodd gan nodi bod yr adroddiadau wedi bod ar gael ar-lein ers 3 wythnos. Ystyriwyd bod hyn yn ddigon o amser i edrych arnynt. Roedd problem eleni (cyfnod y Tair Blynedd) gan nad oedd rhai Deoniaid AGL wedi rhoi gwybod i Swyddfa'r Esgobaeth pwy oedd Aelodau newydd y Gynhadledd. Mae ond yn bosib i Swyddfa'r Esgobaeth ddanfon gwybodaeth i gynadleddwyr roeddynt yn ymwybodol ohonynt. Yn y dyfodol, gofynnwyd i Ddeoniaid AGL sicrhau eu bod wedi danfon manylion cywir ar gyfer Aelodau yn cynnwys manylion cyswllt at Swyddfa'r Esgobaeth. Mae hawl gan bob AWL i gael 8 Aelod, a hawl gan yr Eglwys Gadeiriol i gael 6 Aelod.

Nodwyd fod 63 o swyddi gwag ymhlith aelodau lleyg ledled yr Esgobaeth. Nodwyd pwysigrwydd i sicrhau fod gan AGL gynrychiolaeth addas a digonol.

C2. Yr Esgob

[Yn Gymraeg] Nodaf fod Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol (CEGC) wedi penderfynu newid enw. Hoffwn wybod os ydy'r newid wedi digwydd a beth yw enw newydd y Pwyllgor.

Ymatebodd Hyb Eileen Davies fel Cadeirydd y CEGC gan ddweud y byddai unrhyw newid enw yn cael ei gyflwyno i'r Esgob cyn gwneud penderfyniad.

C3. Y Parch Simon Law (AWL Greater Dewisland)

Rhannodd y datganiad canlynol yn yr Adroddiad Cyllid:

"Clerigwyr yw ased mwyaf yr Esgobaeth ac nid ei gost fwyaf."

Cafwyd cymeradwyaeth gynnes gan y gynhadledd.

Ni chafwyd cwestiynau na sylwadau pellach.

Diolchodd Mrs S Henley i'r Aelodau am eu cwestiynnau, sylwadau a'u hymatebion.

Pleidleisiodd Aelodau ar y cynnig i dderbyn Adroddiadau Blynyddol y Byrddau a'r Pwyllgorau.
O blaid: Mwyafrif llethol
Yn erbyn: Dim
Ymatal: Un

Gwahoddodd Mrs Sue Henley yr Esgob, Ms Julia Edwards a Ms Delyth Higgins i gyflwyno Gwobr Aur Eco Eglwys i'r Parch Ganon Ann Howells ar ran Eglwys Santes Fair, Llanllwch.

Nid oedd Parch Marcus Zipperlen ar gael gan ei fod ar gyfnod sabothol.

Roedd yr Esgob yn falch o ymdrechion yr eglwys wrth ennill y Wobr Aur fawreddog hon ac yn ddiolchgar i Ganon Howells am arwain yr Eglwys ac ymateb i'r sialens Eglwys Eco. Anogodd eglwysi eraill i geisio achrediad Eco Eglwys.

Gwahoddodd Mrs Sue Henley yr Hyb Paul Mackness i gynnig yr eitem ganlynol:

10. Diwygiadau Cyfansoddiadol

Cyflwynodd yr Hybarch Paul Mackness y cynnig canlynol:

I gyfarwyddo'r Cyd-ysgrifenyddion i ddiwygio Cyfansoddiad Cynhadledd Esgobaeth Tyddewi i ymgorffori Rheolau Sefydlog drafft (yn lle'r Atodiad II sy'n bodoli'n bresennol), er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Sefydliadau Corfforedig Elusennol (SCE).

Byddai hyn yn sicrhau:

- Cydymffurfiaeth â gofynion SCE.
- Gwell llywodraethu.
- Mwy o eglurder ynghylch pwerau a gweithdrefnau pleidleisio.
- Cysondeb ar draws AGL.

Bydd angen i AGL nad ydynt yn SCE ddiweddaru eu Rheolau Sefydlog. Dangosai'r dogfennau newydd yn fwy clir ym mhle y gellir gwneud gwelliannau yn gysylltiedig â AGL unigol (wedi'u aroleuo'n felyn).
Byddai templed newydd yn cael ei osod ar wefan yr Esgobaeth, fel bod mynediad ato a modd i'w ddefnyddio'n syth, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

Cynigwyd y cynnig gan Hyb P Mackness, eiliwyd y cynnig gan Mr Arwel Davies, Cofrestrydd yr Esgobaeth. Dywedodd Mr Davies fod llywodraethu da yn galluogi cenhadaeth a gweinidogaeth yr Esgobaeth i ffynnu heb dynnu sylw oddi wrth eu diben craidd. Byddai'r gwelliannau yn rhoi mwy o eglurder, cryfder a thryloywder yn y ffordd y byddai penderfyniadau'n cael eu gwneud.

Gofynnodd Mrs S Henley am gwestiynnau neu sylwadau ar y cynnig.

Ni chafwyd unrhyw ymholiadau na chwestiynau.

Pleidleisiodd Aelodau ar y Cynnig.
O blaid: Yn unfrydol
Yn erbyn: dim
Ymatal: dim
Cariwyd y Cynnig.

Gwahoddwyd yr Hyb Mones Farah i gyflwyno'r eitem ganlynol:

11. Blwyddyn y Genhadaeth – Enghreifftiau gan yr AGL a'r Eglwys Gadeiriol

Cyflwynodd Hyb Mones Farah yr eitem; dywedodd fod fideo YouTube ar dudalen Facebook yr Esgobaeth yn dangos yr hyn yr hoffai pob AWL ei wneud yn ystod Blwyddyn y Genhadaeth. Gwahoddwyd Parch Beth Davies, Parch Ganon John Cecil, Parch Martine Johnson a Miss Maisy Johnson i gyflwyno gweledigaethau eu AGL ar gyfer Blwyddyn y Genhadaeth i'r Gynhadledd.

Cafodd pob cyflwyniad cymeradwyaeth.

Diolchodd yr Hybarch Mones Farah i'r cyflwynwyr am rannu eu gweledigaethau.

Diolchodd Mrs S Henley hefyd i'r holl gyflwynwyr, gan nodi bod eu cyfraniadau yn galonogol.

12. Adborth gan y Corff Llywodraethol (CLl)

Gwahoddwyd Hyb Paul Mackness i siarad.
Rhoddwyd diweddariad i'r Gynhadledd ar y Mesur Aelod Preifat a gyflwynwyd i'r Corff Llywodraethol gan Hyb Mones Farah a Mr Nigel Evans (cafodd y ddau gymeradwyaeth brwd).
Dywedwyd bod y gwaith ar y cynnig eisoes wedi dechrau, ac y byddai'r Corff Cynrychiolwyr yn cyflwyno adroddiad yn ôl i gyfarfod Corff Llywodraethol mis Ebrill 2026.

Gofynnodd Mrs S Henley am gwestiynnau neu sylwadau.

Gofynnodd yr Athro Andrew Henley i'r Hyb Paul Mackness egluro pwrpas y cynnig er budd aelodau newydd y Gynhadledd.

Esboniodd Hyb Mackness fod y cynnig yn galw am adolygiad o drefniadau ariannu esgobaethol (e.e. lefel y gefnogaeth ariannol a ddarperir gan Gorff y Cynrychiolwyr (CC) i esgobaethau ac AddGL) ac effaith diwygiadau Rowe-Beddoe.
Nododd fod esgobaethau ac Ardaloedd Gweinidogaeth yn derbyn llai o gymorth ariannol nag yn y gorffennol, sydd wedi arwain at gynnydd yng Nghyfran y Weinidogaeth.
Sicrhaodd y Cynnig y byddai'r adolygiad hwn yn digwydd o fewn amserlen glir a thynn.

Dywedodd yr Esgob ei fod yn falch iawn fod y Cynnig wedi tarddu o Esgobaeth Tyddewi. Er nad oedd yn credu y byddai CC yn dychwelyd at lefelau ariannu oedd mewn grym cyn Adroddiad Rowe-Beddoe, gobeithiodd y byddai penderfyniad gan CC yn cael effaith gadarnhaol ar bob esgobaeth yn y Dalaith.

Byddai haelioni o fewn cymunedau eglwysig yn dal i fod yn hanfodol. Roedd gweinidogaeth a chenhadaeth yn gyfartal eu pwysigrwydd yn ystod ei Esgobaeth. Diolchodd Hyb Mones Farah a Mr Nigel Evans am y modd yr oeddent wedi cynrychioli'r Esgobaeth yng nghyfarfod diwethaf y Corff Llywodraethol.

Diolchodd Mrs Sue Henley i'r Esgob a gwahoddodd yr Hyb Mones Farah i gyflwyno'r eitem nesaf.

13. Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gweithdai

Rhoddodd yr Hyb Mones Farah friff i'r aelodau ar drefniadau'r chwe gweithdy a fyddai'n cael eu cynnal yn Sesiwn 3. Dywedodd y dylai pob aelod fynychu dau weithdy o'r canlynol:

- Gweddi Eiriolaethol
- Dathlu
- Estyn Allan
- Disgyblaeth
- Efengylu
- Brawdoliaeth

Neilltuwyd hanner awr ar gyfer pob gweithdy ac anogwyd y cynadleddwyr i symud yn brydlon rhyngddynt. Atgoffwyd yr aelodau i bleidleisio os nad oeddent eisoes wedi gwneud hynny.

Byddai Sesiwn 3 yn dechrau am 2:00pm a gofynnwyd i bawb gyrraedd y gweithdai'n brydlon.

Arweiniodd Mr Andy Pike y Gynhadledd mewn gweddi cyn cinio.

Sesiwn 3 – Cadeirydd: Mr Tim Llewelyn

14. Gweithdy 1 - Mynychodd yr aelodau Gweithdy 1.

15. Gweithdy 2 - Mynychodd yr aelodau Gweithdy 2.

16. Y Cyfarfod Llawn (Plenary)

Croesawodd Mr Tim Llewelyn Aelodau i Sesiwn 3 a nododd fod y Rheolau Sefydlog bellach mewn grym. Cyflwynodd y cyfarfod llawn a gwahoddodd yr Hyb Mones Farah i siarad.

Esboniodd yr Hybarch Farah y byddai adborth byr yn cael ei roi o bob un o'r gweithdai.

- Parch Robert Wilkinson (AWL Aberystwyth) – Gweddi Eiriolaethol
  - Dechrau drwy wrando ar Dduw.
  - Mae gweddi yn trawsnewid y rhai sy'n gweddïo.
- Parch Samuel Patterson – Estyn Allan
  - Adnabod pobl nad ydynt yn cael eu cyrraedd gan yr eglwysi ar hyn o bryd.
  - Defnyddio llwyfannau digidol yn effeithiol.
  - Datblygu perthnasoedd ystyrlon.
- Mrs Laura Driscoll (AWL Llanbedr Pont Steffan) – Dathlu
  - Dathlu profiadau llawen.
  - Dathlu bywyd yr eglwys yn fwriadol.
- Y Tra Pharch Sarah Rowland Jones (Deon) – Brawdoliaeth
  - Adeiladu cymunedau o berthyn.
  - Gweddïo gyda'n gilydd.
  - Creu cyfleoedd i gyfarfod rhwng dyddiau'r Sul.
  - Rhannu bwyd a bywyd gyda'n gilydd.
- Ms Beth Summerfield (Ordinand yn Sant Padarn) – Dathlu
  - Meddwl y tu hwnt i drefn arferol y Sul.
  - Adnabod ble mae hwyl ar goll ym mywyd yr eglwys.
  - Dathlu'r hyn sy'n unigryw yn hanes a threftadaeth yr eglwys.

- Y Parch Romola Parish – Disgyblaeth
  - Dilyn Iesu trwy weithredoedd dyddiol o ffyddlondeb.
  - Gwerthfawrogi gwneud y "pethau bychain".
  - Dangos caredigrwydd.
- Mr Gary Taverner (LMA Bro Padarn) – Efengylu
  - Rhannu ffydd drwy roddion a phersonoliaeth unigol.
  - Cael ein cymell gan gariad Crist.
  - Ystyried sut y gall ein hunigrywiaeth ein helpu i rannu neges Iesu.

Diolchodd yr Hyb Mones Farah i'r aelodau am eu hadborth.

Dywedodd mai gweledigaeth yr Esgob oedd *Agored i Dduw;* a'i bod yn bwysig ymgysylltu â hi oherwydd bod pobl yn aml yn fwy agored i Dduw nag y byddem yn ei feddwl. Nododd os yw pobl yn teimlo bod ein drysau ni ar gau, gallant hefyd deimlo fod drws Duw ar gau iddynt.

Anogwyd y Gynhadledd hefyd i fod yn agored i Dduw.

Cyhoeddwyd dyddiadau lansio *Agored i Dduw* ymhob Archddiaconiaeth:

- 5 Rhagfyr 2025 – Eglwys yr Holl Saint, Rhydaman, am 7:00pm
- 7 Rhagfyr 2025 – Eglwys Santes Fair, Dinbych-y-pysgod, am 3:00pm
- 9 Rhagfyr 2025 – Yr Esgob a'r Hyb Andy Herrick yn siarad

Cyflwynodd fideo TikTok, gan ddiolch i Mrs Katy Patterson am ei chyfraniad i'w gynhyrchu.

Daeth yr Hybarch Farah â'r sesiwn lawn i ben drwy arwain Gweddïau Cenhadol Esgobaeth Tyddewi.

Cymerodd Mr Tim Llewelyn y gadair unwaith eto a diolchodd i'r Hyb Farah ac i'r holl unigolion a oedd wedi arwain y gweithdai. Diolchodd i'r Hyb Farah hefyd am y gwaith paratoi ar gyfer blwyddyn o *Agored i Dduw* a fyddai'n ffynhonnell ysbrydoliaeth, yn ogystal â'r blynyddoedd i ddilyn.

17. Anerchiad y Lywydd - Yr Esgob

Gwahoddodd Mr Tim Llewelyn yr Esgob i gyflwyno ei Anerchiad Llywyddol i'r Gynhadledd.
Dechreuodd yr Esgob drwy ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y Gynhadledd:

- Mrs Rachel Thomas, Pennaeth Ysgol Penrhyn Dewi, am ei chymorth a'i chefnogaeth
- Mrs Sian Churchill, Rheolwr Cymorth Busnes Ysgol Penrhyn Dewi
- Mr Steve Probert, Technegydd
- Pete Foster, Gofalwr
- MamGu am ddarparu te a choffi
- Box am ddarparu'r cinio
- Ms Llinos Haf am ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd
- Y stondinwyr a gyfoethogodd y diwrnod
- Pawb a gyflwynodd neu a arweiniodd eitemau
- Y rhai a arweiniodd yr addoliad.
- Mr Tim Llewelyn a Mrs Sue Henley am gadeirio
- Staff Swyddfa'r Esgobaeth sy'n rhoi gymaint o gefnogaeth drwy gydol y flwyddyn yn ogystal â'r gefnogaeth heddiw

- Miss Emma O'Connor, Rheolwr Gweinyddu ac Eiddo
- Y Cyd-ysgrifenyddion, Howard Llewellyn a Paul Mackness
- Holl aelodau'r Gynhadledd am fod yn bresennol – pan fod ymdrech fel hyn yn cael ei wneud mae'n golygu gymaint i'r teulu Esgobaethol. Nododd yr Esgob fod y Gynhadledd yn un o ddim ond dau gyfle yn y flwyddyn iddo annerch holl glerigwyr yr Esgobaeth, a'r unig gyfle iddo annerch aelodau lleyg y Gynhadledd fel grŵp, ac eithrio iddo fynychu eglwysi unigol.
  Gofynnodd i'r rhai oedd yn bresennol drosglwyddo negeseuon y dydd i'r rhai nad oedd wedi gallu mynychu.
- Yr Hyb Mones Farah am gydlynu'r eitemau yn ymwneud â Blwyddyn y Genhadaeth, ac i'r rhai sy'n cefnogi'r gwaith
- Y Deon, Hyb Paul, Hyb Eileen a Hyb Matthew am bopeth maent yn gwneud i gefnogi Gweinidogaeth Esgobol
- Parch Jonathan Parker, Caplan yr Esgob.
- Diolch neilltuol i'r Canghellor, Ei Anrhydedd Nicholas Cooke KC ac i Mr Arwel Davies, Cofrestrydd yr Esgobaeth am eu gwaith dilys o fewn a dros yr Esgobaeth.

Cyflwynodd yr Esgob nifer o negeseuon allweddol i'r Gynhadledd.

- Diolchodd i glerigwyr, darllenwyr lleyg, arweinwyr addoliad, aelodau'r AGL; eu hymroddiad, eu gweddïau, eu gofal bugeiliol a'u gwasanaeth ffyddlon oedd calon bywyd yr Esgobaeth.
- Rhaid i'r Esgobaeth fod yn fwy Agored i Dduw ac yn fwy eangfrydig.
- Dylai cenhadaeth fod yn gydweithredol ac wedi'i seilio ar weddi, addoliad ac adnewyddiad ysbrydol.
- Mynegodd obaith y byddai *Agored i Dduw* yn cael effaith hirdymor ar fywyd yr Esgobaeth. Roedd gan George Noakes, cyn Archesgob ac Esgob, angerdd dros weinidogaeth a chenhadaeth - nid oedd angen newid enw *Agored i Dduw,* ond gallai fod angen newid ac ad-drefnu'r ffordd o gyflawni cenhadaeth. Nid oedd lle i fod yn hunanfodlon. Roedd angen i'r Eglwys i fod yn Eglwys y mae Duw yn ei galw hi i fod a bod angen hefyd i siarad yn erbyn yr erchyllterau sy'n digwydd ledled y byd.
- Dywedodd ei fod yn disgwyl i Eglwysi ac AGL gefnogi'r digwyddiadau paratoi a'r prif ddigwyddiad *Agored i Dduw* dros ŵyl y Pentecost.
- Anogodd Clerigwyr, Darllenwyr Lleyg ac Arweinwyr Addoliad i sefydlu Grwpiau Astudio'r Beibl a Grwpiau Gweddi, digwyddiadau eglwysig, rhyngweithio yn y gymuned, ymweliadau bugeiliol, cnocio drysau, chwilio am y colledig, myfyrio a gweithredu ar Gomisiwn Crist, datblygu cysylltiadau gydag Ysgolion - roedd angen i wrando ar bobl ifanc a'u gwerthfawrogi. Roedd angen manteisio ar dalentau Cristnogion profiadol, yn ogystal â defnyddio diwylliant, iaith a thraddodiadau er lles gair byw Iesu Grist.
- Mynegodd awydd i weld litwrgi dychmygus a chreadigol yn cyfoethogi profiad pobl o Dduw mewn addoliad, moliant, gweddio a diolchgarwch. Anogodd addysgu heriol, cymdeithas ysbrydoledig a datguddiad ysbrydol dyfnach. Dywedodd fod gofal bugeiliol yn allweddol a rhaid ei gymryd o ddifrif. Roedd hi'n alwad sanctaidd ac yn gryn gyfrifoldeb oedd yn galw am fyfyrdod gweddigar, disgyblaeth ysbrydol ac arweinyddiaeth ddewr. Anogwyd timau gweinidogaeth yr AGL i gyfarfod yn rheolaidd mewn gweddi.
- Dywedodd nad yw'r Eglwys yn rhydd rhag dirywiad, gwrthdyniad neu fod yn ddifater ond nad yw chwaith heb obaith nac arweiniad.

- Disgrifiodd lywodraethu a stiwardiaeth ariannol fel cyfrifoldebau ysbrydol yn hytrach na beichiau gweinyddol. Roedd angen fyfyrdod gonest ar gynaliadwyedd, arweinyddiaeth a gweledigaeth. Rhaid gofyn cwestiynnau caled ynglyn â sut mae adeiladau, cyllid a phobl yn cael eu stiwardio. Rhaid bod yn agored i newid.
- Cyfeiriodd at Ioan 15:2 a dywedodd, nid cosb yw tocio, ond paratoad ar gyfer twf; cael gwared ar yr hyn nad sydd bellach yn dwyn ffrwyth a chreu lle i fywyd newydd. Galwad i ostyngeiddrwydd ydoedd, at ddibyniaeth ddyfnach ar Dduw ac am adnewyddu ymrwymiad, er mwyn atgoffa bod twf yn dod o ddewrder nid o gysur. Anogodd bawb i weld tocio fel rhodd a gwahoddiad dwyfol i fod yn fwy ffrwythlon, fwy ffyddlon ac yn fwy canolbwyntiedig ar Grist.
- Cyfeiriodd yn uniongyrchol at y clerigwyr ac anogodd hwy i arwain trwy esiampl, fod yn weledig, bod yn rhagweithiol a bod yn aberthol yn eu gwasanaeth. Dywedodd nad ffurf litwrgaidd yn unig yw urddo (ordinal) yr Eglwys; mae'n gynllun ysbrydol ar gyfer y dyfodol. Dylai gweinidogaeth gael ei nodweddu gan weddi, gofal bugeiliol ac ymrwymiad dwfn i rannu'r Efengyl. Mynegodd bryder am les clerigwyr a phwysleisiodd bwysigrwydd gofalu amdanynt eu hunain. Nododd ei fod weithiau wedi derbyn sylwadau gan blwyfolion a oedd yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth eu ficeriaid. Dywedodd pe bai hynny'n wir, roedd ef am ddeall pam nad oedd glerigwyr yn ymgysylltu. Cynghorodd ei fod, yn bennaf, wedi derbyn negeseuon o gefnogaeth a diolchgarwch am yr hyn oedd yn cael ei wneud gan y clerigion yn yr Esgobaeth; roedd hynny'n ei lenwi â llawenydd. Fodd bynnag, cafwyd hefyd feirniadaeth o'r weinidogaeth a beirniadaeth o unigolion. Roedd yn anodd cyfiawnhau esgeulustod bugeiliol, ymddygiad negyddol ac agwedd negyddol. Cyfaddefodd hefyd ei fod ef ei hun, oherwydd prysurdeb neu flinder, weithiau yn methu rhai pethau. Galwodd ar y clerigwyr i edrych ar weinidogaeth gyda'i gilydd, cryfhau doniau, magu dyfnder mewn gweddi, a galw ar yr Ysbryd Glân er mwyn cyrraedd y gwasanaeth aberthol y mae Crist wedi galw pob un ohonynt iddo.
- Anogodd aelodau i fyfyrio'n onest ar eu stiwardiaeth a gofynnodd iddynt ystyried a allent gyfrannu mwy yn ariannol i gefnogi cenhadaeth a gweinidogaeth. Pwysleisiodd nad yw bywiogrwydd yr Eglwys yn dibynnu ar arian yn unig; mae dibynnu ar ffydd, cydweithrediad a pharodrwydd pobl Dduw i gyfrannu at dwf Ei Deyrnas.
- Cenhadaeth Crist yw'r genhadaeth hon, Ef sydd wedi addo bod gyda'i bobl bob amser. I gloi, galwodd yr Esgob ar yr Esgobaeth i symud ymlaen gan fod yn agored i Dduw, yn agored i'w gilydd, ac yn agored i'r byd, byd sydd mewn angen mor daer o gariad, gwirionedd a gras Iesu Grist.

Diolchodd Mr Tim Llewelyn i'r Esgob am ei Araith Lywyddol f
eddylgar, heriol a chraff.
Dywedodd y byddai geiriau'r Esgob yn parhau i arwain, ysbrydoli ac atgoffa'r Esgobaeth bod llawenydd nid yn unig yn bosibl ond yn hanfodol. Nododd fod yr Esgob yn dod â llawenydd a hwyl i fywyd yr Esgobaeth, gan ein galluogi i gario baich ein cyfrifoldebau gyda gras a gobaith. Gellir wynebu cyfnodau difrifol gyda llawenydd yn y galon a gwên.

Yna trosglwyddodd Mr Llewelyn y gadair yn ôl i'r Esgob ar gyfer gweddill eitemau'r Gynhadledd.

18. Canlyniadau'r Etholiadau

Galwyd yr Hyb Paul Mackness i gyhoeddi canlyniadau etholiadau'r Esgobaeth.
Diolchodd i bawb a oedd wedi sefyll mewn etholiadau.
Dywedodd nad oedd digon o enwebiadau wedi dod i law i lenwi pob swydd wag.
Yn ei gyfarfod cyntaf o'r tair blynedd newydd, byddai'r Pwyllgor Sefydlog yn cael ei ofyn i awdurdodi ail rownd o enwebiadau i lenwi rhai o'r swyddi gwag.

Etholiad: **Y Pwyllgor Sefydlog** *(Pob un yn ddiwrthwynebiad)*

- Mrs Gina Jones - Archddiaconiaeth Caerfyrddin
- Mrs Marice Morgan - Archddiaconiaeth Caerfyrddin
- Parch Ali Reeves - Archddiaconiaeth Caerfyrddin
- Mrs Laura Cait Driscoll - Archddiaconiaeth Aberteifi
- Mrs Sue Henley - Archddiaconiaeth Aberteifi
- Parch Wyn Maskell - Archddiaconiaeth Aberteifi
- Swydd wag – Archddiaconiaeth Tyddewi

Etholiad: **Etholwyr Esgobol**
Etholwyr Lleyg:

1. Mr Tim Llewelyn
2. Mr Arwel Davies
3. Mrs Gina Jones
4. Yr Athro Medwin Hughes

Etholwyr Clerigol:

1. Yr Hyb Paul Mackness
2. Yr Hyb Mones Farah
3. Yr Hyb Dr Matthew Hill
4. Parch Dr Jonathan Wright
5. Parch Robert Moore

Etholiad: **Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru**
Aelodau Lleyg:

- Mrs Marice Morgan - Archddiaconiaeth Caerfyrddin
- Mrs Laura Cait Driscoll - Archddiaconiaeth Aberteifi
- Mr Arwel Davies - Archddiaconiaeth Tyddewi

Clerigwyr:

- Hyb Mones Farah - Archddiaconiaeth Caerfyrddin
- Parch Wyn Maskell - Archddiaconiaeth Aberteifi

Etholiad: **Tribiwnlys Disgyblu'r Eglwys yng Nghymru**

- Hyb Ddr Matthew Hill

Etholiad: **Y Pwyllgor Bugeiliol ac Eglwysig**

- Mrs Gina Jones - *Yn ddiwrthwynebiad, Archddiaconiaeth Caerfyrddin (yn ddiwrthwynebiad)*

Etholiad: **Y Bwrdd Persondai**

- Mr Nevin Davies - Y*n ddiwrthwynebiad, Archddiaconiaeth Caerfyrddin*
- Y Parch Jim Flanagan - Y*n ddiwrthwynebiad, Archddiaconiaeth Caerfyrddin*

Bydd pob swydd arall yn mynd ymlaen i ail rownd o enwebiadau.

Etholiad: Cyngor Esgobaethol dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol (CEGC)
Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau dilys.

Etholiad: Y Bwrdd Enwebu
Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau.
Bydd angen cynnal ail rownd o enwebiadau.

Diolchodd yr Esgob i'r Hyb Paul Mackness.

Gofynnodd yn barchus i aelodau aros ar gyfer y Cymun Bendigaid a fyddai'n dod â'r Gynhadledd i ben.

Byddai Cynhadledd Esgobaethol 2026 yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 3 Hydref 2026
yn Archddiaconiaeth Aberteifi, gyda'r thema a'r lleoliad i'w cadarnhau.

Atgoffodd yr Esgob y clerigwyr fod disgwyl iddynt fod yn bresennol.

Anogodd hefyd y clerigwyr i gefnogi ei gilydd drwy fynychu gwasanaethau trwyddedu clerigol.

19. Addoliad i Gloi
Daeth y Gynhadledd i ben gyda'r Esgob yn arwain y Cymun Bendigaid.

Pwyllgor Sefydlog y Gynhadledd Esgobaethaethol **AGENDWM 5 a 6**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Paul Mackness, Ysgrifennydd Clerigol 2024-

AELODAETH

Ex officio:	Yr Esgob (Cadeirydd), y Deon, yr Archddiaconiaid (Archddiacon Tyddewi yw'r Ysgrifennydd Clerigol), Cofrestrydd yr Esgobaeth, Cadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, Cadeirydd Bwrdd y Persondai, Is-gadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth (Is-gadeirydd)
Etholwyd:	1 Clerig a 3 Aelod Lleyg fesul Archddiaconiaeth
Cyfetholwyd:	1 Clerig, 1 Aelod Lleyg
Presennol:	Ysgrifennydd yr Esgobaeth (Ysgrifennydd Lleyg), y Cyfarwyddwr Gweinidogaeth, y Cenhadwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, Swyddog Gofal y Greadigaeth a Chynaliadwyedd, Swyddog y Gymraeg, Swyddog Cyfrifoldeb Cymdeithasol, Rheolwr Gweinyddu ac Eiddo

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gyda dau o'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn. Disgwylir i aelodau wasanaethu ar o leiaf un Corff Esgobaethol arall fel cynrychiolydd o'r Pwyllgor Sefydlog

YR AMCANION

- Gwasanaethu fel Cynhadledd Esgobaethol rhwng cyfarfodydd
- Gwasanaethu fel Pwyllgor Gweithredol i'r Gynhadledd Esgobaethol, gan reoli Agenda'r Gynhadledd a'r gwaith Goruchwylio a Chraffu ar Gynghorau, Byrddau a Phwyllgorau'r Esgobaeth
- Cydweithredu â'r Esgob wrth ad-drefnu Ffiniau Plwyfi/Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol
- Derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Cyfarwyddiaethau, y Bwrdd Enwebu, Cyngor Cyfrifoldeb Cymdeithasol yr Esgobaeth, Pwyllgor y Gymraeg, Pwyllgor Gofal y Greadigaeth a Chynaliadwyedd, y Tasglu Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, y Pwyllgor Eglwysi a Bugeiliol, Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth a'r Bwrdd Persondai
- Derbyn adroddiadau rheolaidd gan y Grŵp Garddio mewn perthynas â *Tocio am Dyfiant*
- Cynghori'r Esgob ar unrhyw faterion yn ôl y galw.
- Ymgymryd â thasgau a ddirprwywyd gan y Gynhadledd Esgobaethol.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae Pwyllgor Sefydlog yr Esgobaeth wedi parhau i fonitro a chraffu ar waith holl Gyngorau, Byrddau a Phwyllgorau'r Esgobaeth, drwy gael cynrychiolwyr sy'n gwasanaethu ar y cyrff hyn. Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar strategaeth *Tocio am Dyfiant*.

Drwy'r Cyd-ysgrifenyddion, mae'r Pwyllgor Sefydlog wedi sicrhau bod yr holl drefniadau ar gyfer Etholiadau'rEsgobaethau yn eu lle.

HERIAU ELENI

Mae nifer y bylchau ar y Pwyllgor Sefydlog wedi rhwystro rhywfaint o'i waith, ac er bod nifer o'r swyddi gwag wedi'u llenwi, mae yna heriau o hyd i sicrhau cynrychiolaeth mor eang â phosibl o'r Esgobaeth.

Mae'r diffyg enwebiadau ar gyfer yr Etholiadau Esgobaethol a Thaleithiol wedi golygu bod llawer o Bwyllgorau a Byrddau yn gweithredu gyda llai o aelodau nag sy'n angenrheidiol. Mae hynny wedi ei ddatrys yn rhannol drwy Archddiaconiaid sy'n gweithredu ar ran yr Esgob yn cysylltu ag unigolion er mwyn llenwi swyddi gwag achlysurol. Nid yw hyn yn cael ei ganiatáu ar gyfer Etholwyr Esgobol ac wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r Cyd-ysgrifenyddion yn ystyried pedwerydd cylch o etholiadau i lenwi bylchau ar y rhestrau Etholwyr.

EDRYCH YMLAEN

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn gobeithio y bydd ganddo aelodaeth lawn ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn gweithio gyda'r Grŵp Garddio i weithredu'r argymhellion a wnaed yn dilyn Cam 4 *Tocio am Dyfiant*. Y gobaith yw y bydd penodi Ysgrifennydd newydd i'r Esgobaeth yn hwb i'r gallu i drefnu'r Gynhadledd a'r Pwyllgor Sefydlog.

CYNHADLEDD Y FLWYDDYN NESAF:

Nid yw'r Pwyllgor Sefydlog wedi penderfynu eto ar leoliad Cynhadledd 2027, y tu hwnt i'r ffaith y bydd yn cael ei chynnal yn Archddiaconiaeth Caerfyrddin, ond bydd yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn 2 Hydref.

ARGYMHELLION

Mae'r Pwyllgor Sefydlog yn gwahodd y Gynhadledd i:

1. *Pwerau'r Cyfarfod Llawn*
   Dirprwyo pwerau'r cyfarfod llawn i'r Pwyllgor Sefydlog am ddeuddeg mis arall.

2. *Cymeradwyo'r Adroddiad*
   Derbyn Adroddiad y Pwyllgor Sefydlog

Bwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi **AGENDWM 7**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Mr Timothy Llewelyn, Cadeirydd

AELODAETH

Ex Officio: Yr Esgob, y Deon, yr Archddiaconiaid, Cadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, Cadeirydd y Bwrdd Persondai, Cofrestrydd yr Esgobaeth, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth. Enwebwyd: 1 Clerig fesul Archddiaconiaeth, 2 Gyfarwyddwr Lleyg fesul Archddiaconiaeth. Etholwyd: 1 Cyfarwyddwr Lleyg fesul Archddiaconiaeth. Cyfetholwyd: 1 Clerig, 3 Chyfarwyddwr Lleyg.

CRYNODEB O'R FLWYDDYN

Braint o'r mwyaf i mi yw cyflwyno fy adroddiad cyntaf fel Cadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, ac rwyf am ddiolch o waelod calon am arweinyddiaeth, ymrwymiad ac ymroddiad fy rhagflaenydd, Mrs Hazel Evans. Mae ei gwasanaeth wedi cryfhau gwaith y Bwrdd ac yn gadael gwaddol sy'n destun diolchgarwch i ni i gyd.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau penodiad Mr Iwan Thomas fel Ysgrifennydd newydd yr Esgobaeth. Mae'n dechrau yn ei swydd ar 4 Mai 2026; mae'n ymuno â ni ar ôl cyfnod hynod lwyddiannus fel Prif Swyddog Gweithredol PLANED. Edrychwn ymlaen at elwa ar y profiad, yr arweinyddiaeth a'r sgiliau y bydd yn eu cyflwyno i'r rôl arwyddocaol hon. Rydym hefyd yn diolch yn ddiffuant i Mr Howard Llewellyn am ei flynyddoedd lawer o wasanaeth ymroddedig i'r Esgobaeth ac i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth. Mae ei broffesiynoldeb a'i ymrwymiad wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr, ac rydym yn estyn ein dymuniadau cynhesaf iddo wrth iddo gychwyn ar ei ymddeoliad.

Er mwyn cefnogi Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol wrth iddynt drosglwyddo i statws Sefydliadau Corfforedig Elusennol, mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth wedi cynnal gweithdai ar gyfer Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol mewn partneriaeth ag ACAT a Clay Shaw Butler. Roedd y sesiynau hyn yn cefnogi Trysoryddion yr Eglwys a'r Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol i ddatblygu sgiliau llywodraethu a rheolaeth ariannol cadarn. Mae'r adborth wedi bod yn galonogol, er bod cydnabyddiaeth o'r angen am waith pellach i sicrhau bod Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol yn parhau i dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Cyflwynodd y Bwrdd ddull newydd, gan gyfrifo Cyfran y Weinidogaeth ar lefel Ardal Weinidogaeth Leol yn hytrach nag yn ôl eglwys unigol. Er ei bod yn rhy gynnar i bennu'r achos, derbyniwyd 80% o Gyfran y Weinidogaeth yn ystod 2025; gwelliant calonogol ar y blynyddoedd diwethaf. Bydd y Bwrdd yn parhau i fonitro tueddiadau rhoi a thueddiadau casglu yn agos.

Mae'r Esgobaeth wedi cyflwyno un cais i Gronfa Twf yr Eglwys. Er iddi gael croeso gwresog, mae'r Gronfa wedi bod yn destun oedi ers hynny hyd nes y cynhelir adolygiad ehangach o gyllid Corff y Cynrychiolwyr. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu darparu wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

Ar ôl cyhoeddi Adroddiad Gofwy Eglwys Gadeiriol Tyddewi, mae Pwyllgor Gwaith Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn aros am ganlyniadau'r Pwyllgor Gwaith a sefydlwyd gan y Deon a'r Cabidwl i oruchwylio'r gwaith o weithredu argymhellion yr adroddiad hwn. Mae'r Bwrdd yn parhau i fod yn barod i gefnogi'r camau nesaf.

Rwy'n parhau'n hynod ddiolchgar am ymrwymiad ein hymddiriedolwyr gwirfoddol ac am broffesiynoldeb ein swyddogion esgobaethol. Fel rhan o waith parhaus i wella llywodraethu, mae strwythur a fformat cyfarfodydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn cael eu hadolygu i sicrhau eu heffeithiolrwydd a'u heffeithlonrwydd.

Y Bwrdd Persondai **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Ionawr – Rhagfyr 2025

Awdur: Mr Nigel Roberts – Cadeirydd / Mrs N Evans BA FCCA, Rheolwr Cyllid

AELODAETH Y BWRDD

Cyfarfu'r Bwrdd Persondai bob chwarter yn ystod y cyfnod o dan gadeiryddiaeth Mr Nigel Roberts. Mae aelodaeth y bwrdd yn cynnwys yr Esgob, yr Archddiaconiaid, cynrychiolwyr clerigol a lleyg, cynrychiolydd o blith gŵyr a gwragedd clerigion, ac aelodau cyfetholedig sydd ag arbenigedd mewn materion fel rheoli eiddo, prisio ac adeiladu. Mae Arolygydd y Bwrdd Persondai a Phennaeth Gwasanaethau Adeiladau Corff y Cynrychiolwyr hefyd yn mynychu.

YR AMCANION

Rheoli portffolio yr Esgobaeth o ficerdai yn ôl anghenion y Weinidogaeth a chynnal yr adeiladau hyn i safon uchel, a rheoli'r rhaglen ailfuddsoddi.

ADOLYGIAD O 2025

Cyfanswm yr incwm ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y Gronfa Atgyweirio oedd £855,153 a arweiniodd, ar ôl gwariant o £872,241, at ddiffyg o £17,088 ar 31 Rhagfyr 2025. Balans y Gronfa Atgyweirio ar 31 Rhagfyr oedd £809,912.

Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd balans y Gronfa Gwella yn warged o £193,051 ac amcan y Bwrdd yw cadw £1 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn i adeiladu tri ficerdy newydd ar ryw bwynt ynghyd â £100k ychwanegol i'w gadw fel cyllid cyfnewidiol ar gyfer uwchraddio eiddo presennol.

MATERION CYFREDOL

- 14 eiddo wedi'u rhentu i denantiaid heb unrhyw eiddo'n cael ei rentu gan y Bwrdd. 33 eiddo gwag gyda'r mwyafrif helaeth wedi'u dyrannu at ddefnydd clerigion yn y dyfodol ac i'w gwerthu. Mae trafodion eiddo parhaus yn cynnwys gwerthu Llanstadwel a'r Rhodfa, Caerfyrddin.
- Mae'r rhaglen cynnal a chadw a gwasanaethu parhaus wedi parhau, ac mae hyn yn cynnwys yr arolwg 5 blynedd o osodiadau trydanol a'r amserlen beintio sy'n cael ei blaenoriaethu yn ôl yr angen. Mae gwaith parhaus hefyd o ran cynnal Arolygon Asbestos.
- Mae'r ymrwymiadau a ragwelir hyd at ddiwedd 2026 yn cynnwys gwariant ar eiddo newydd yn Abergwaun a Begeli.

CYNLLUNIAU I'R DYFODOL

- Mae'r Archddiaconiaid yn rheoli rhestr fanwl o flaenoriaethau sy'n cynnwys disodli'r eiddo presennol hynny sydd â meincnodau EPC aneffeithlon gyda'r nod yn y pen draw o ddatrys problem tlodi tanwydd. Mae goblygiadau *Tocio am Dyfiant* yn y dyfodol hefyd yn cael eu cydnabod.
- Mae gwaith sylweddol i'w wneud o hyd i godi'r eiddo yn y portffolio i feincnod EPC o C neu uwch. Ar ddiwedd 2025, roedd gan 67% o'r eiddo feincnod EPC D neu is ac roedd gan 33% feincnod EPC C neu uwch. Mae cynnydd yn cael ei wneud i wella graddfeydd Effeithlonrwydd Ynni eiddo fel eu bod yn cyrraedd band EPC C. Ystyrir gwerthu eiddo sy'n cael eu pennu'n rhy dechnegol anodd neu ddrud i sicrhau band EPC C. Bydd tai amgen, mwy modern ac ynni-effeithlon, yn cael eu prynu yn eu lle. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd ag agenda cynaliadwyedd yr Eglwys yng Nghymru.
- Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan ei gynghorwyr proffesiynol ynglŷn â'r farchnad eiddo sy'n hynod heriol ar hyn o bryd.

Yr Is-bwyllgor Cyllid **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026
Awdur: Yr Athro Andrew Henley, Cadeirydd, Is-bwyllgor Cyllid

AELODAETH

Mr T J Llewelyn, yr Athro A G Henley, yr Hybarch P R Mackness, yr Hybarch Dr M A R Hill, y Parch R H E Davies, yr Hybarch M A Farah, y Parch W Maskell, Mr N Evans, Mr I Evans, Mr A Howells

YR AMCANION

Monitro a chynllunio sefyllfa ariannol a systemau rheoli ariannol Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth. Mae'n chwarae rôl allweddol wrth sicrhau bod Bwrdd Gweithredol y Bwrdd Cyllid yn cyflawni ei chyfrifoldebau ariannol yn gywir a'i fod yn parhau i fod yn ariannol hyfyw bob amser.

CYFLAWNIADAU ELENI

- Pennu cyllideb flynyddol y Bwrdd Cyllid ar gyfer 2026, gan geisio cael deiliaid cyllidebau a rhanddeiliaid allweddol i ymgysylltu cyn cael cymeradwyaeth gan Bwyllgor Gweithredol y Bwrdd Cyllid.
- Adolygu incwm a gwariant yn rheolaidd, gan nodi tueddiadau a thynnu sylw at unrhyw bryderon a chynnig camau adfer lle bo angen.
- Rhagweld gweithgareddau a materion i'r dyfodol ac asesu eu goblygiadau cyllidebol.
- Adolygu niferoedd y Clerigion yn rheolaidd, gan ystyried penodiadau, ordeiniadau a symudiadau newydd i'r Esgobaeth ac ymddeoliadau sydd i ddod.
- Monitro mabwysiadu meddalwedd cyfrifyddu a argymhellir gan Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol ac eglwysi a throsglwyddo Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol i statws Sefydliadau Corfforedig Elusennol.

HERIAU ELENI

- Mae'r Esgobaeth yn parhau i wynebu amgylchiadau heriol o ran rheoli ffrydiau incwm i gyflawni ymrwymiadau gwariant.
- Mae derbyniadau ar gyfer Cyfran y Weinidogaeth yn parhau'n her, gan gydnabod yr amgylchiadau economaidd heriol ehangach sy'n cyfyngu ar allu eglwysi i godi arian a chynnal stiwardiaeth.
- Sicrhau bod gan yr Esgobaeth adnoddau digonol ar gyfer gweinidogaethu a chefnogi gweithgareddau cenhadol, yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu islaw nifer y clerigion y cyllidebwyd ar eu cyfer. Clerigion yw ased mwyaf yr Esgobaeth ac mae cenhadaeth yn ganolog i Deyrnas Dduw.

EDRYCH YMLAEN

- Ymgysylltu parhaus ag Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol, yn enwedig wrth iddynt wynebu heriau ariannol a goblygiadau *Tocio am Dyfiant* a'r trawsnewid i Sefydliadau Corfforedig Elusennol.
- Cyflawni cyllideb realistig ar gyfer y flwyddyn i ddod a fydd yn gallu cefnogi'r gwaith gweinidogaethu a chenhadu.

Y Pwyllgor Archwilio a Risg **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Paul Mackness, Cadeirydd, y Pwyllgor Archwilio a Risg

AELODAETH

BCE:	Archddiacon Tyddewi (Cadeirydd), Mr N Evans, Mr N D Roberts, Mr A Howells
Cyfetholwyd:	Cadeirydd ac Is-gadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, Mrs G Morris

YR AMCANION

- Goruchwylio a chynghori Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth ar faterion sy'n ymwneud â'r archwiliad allanol blynyddol, yr asesiad neu'r risgiau sy'n effeithio ar y Bwrdd Cyllid a chraffu ar faterion cyllidebol o fewn y cyfanswm enillion o ran sefyllfa ariannol y Bwrdd Cyllid.
- Goruchwylio a diweddaru'r Gofrestr Risg.
- Goruchwylio a gweithredu unrhyw brosesau tendro ar gyfer gwasanaethau i Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth.
- Gweithio gyda'r Archwilwyr allanol i gwblhau'r archwiliad blynyddol.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl reoliadau a chyfreithiau angenrheidiol sy'n ymwneud â'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.
- Sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Partneriaeth Corff y Cynrychiolwyr a Chyllid Cadernid Strwythurol.

CYFLAWNIADAU ELENI

Goruchwyliodd y Pwyllgor Archwilio a Risg y gwaith o wreiddio Cofrestr Risg Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, gyda'r drydydd flwyddyn o ddiwygiadau yn cael eu hymgorffori fel rhan o waith blynyddol pwyllgorau Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth. Mae Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth yn parhau i fod ag archwiliad glân ac yn fusnes gweithredol. Mae ailbrisio eiddo a ddelir gan Fwrdd Cyllid yr Esgobaeth wedi'i gynnal.

HERIAU ELENI

Mae materion capasiti mewn perthynas â staffio wedi golygu oedi cyn ymgymryd â phroses dendro Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth ar gyfer Asiantau Tir.

EDRYCH YMLAEN

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn parhau i fonitro'r Gofrestr Risg ac yn sicrhau bod yr holl Bwyllgorau cysylltiedig yn gwneud yr un peth. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn gobeithio cwblhau'r broses dendro ar gyfer ei asiantau tir erbyn diwedd 2026.

Is-bwyllgor Grantiau Esgobaeth Tyddewi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Ddr Matthew Hill

Mae aelodau'r Is-bwyllgor Grantiau yn cynnwys y pedwar Archddiacon, y Parch S Brett a'r Parch S Whitmarsh, yr Athro A G Henley, Mrs M Hughes, Mrs M Morgan, a Mr T Llewelyn gyda'r aelodau canlynol o Staff Swyddfa'r Esgobaeth yn mynychu fel swyddogion cefnogol: Mrs N Evans, Miss I Gandor, Mr F Clemas-Howard a Miss M Johnson.

Mae'r Is-bwyllgor yn gweinyddu'r gwaith o ddyfarnu Grantiau o hyd at £3000 sydd ar gael i Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol ac i eglwysi, i gefnogi prosiectau sy'n annog cenhadaeth ac sy'n hyrwyddo twf o ran niferoedd ac o ran ysbrydolrwydd ac estyn allan i gymunedau lleol.

Derbyniwyd naw cais gan y pwyllgor yn ystod y flwyddyn, gydag wyth ohonyn nhw'n llwyddiannus.

Mae'r prosiectau a'r mentrau sy'n cael eu hariannu yn cynnwys:

- Gwisgoedd côr
- Gofod cymunedol pob oed sy'n cynnig pryd o fwyd, sgwrs, addoliad, cymdeithas a gemau.
- Côr eglwysig cymunedol.
- Gwasanaeth addoli cyfoes.
- Peiriant golchi llestri newydd i hwyluso eglwys gyda'r gwaith o gynnal nifer o brosiectau a mentrau presennol sydd i gyd yn cynnwys lluniaeth neu brydau bwyd ac, o ganlyniad, llawer iawn o olchi llestri.
- Gŵyl lenyddol R S Thomas.

Yr her, fel arfer, yw annog mwy o geisiadau am grantiau. Mae'r grantiau yn cael eu tanddefnyddio ar hyn o bryd ac mae digon o arian ar gael.

Cymerwch ychydig o amser i ystyried digwyddiadau a mentrau y gallech ddefnyddio grant o'r fath ar eu cyfer. Gallwch fod mor fentrus ag y mynnwch. Gyda'r grant yno i dalu eich costau, gallwch fforddio i fod yn feiddgar, yn greadigol ac yn anturus heb orfod poeni am fantoli'r cyfrifon neu hyd yn oed dalu eich costau!

Yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Mr Tim Llewelyn, Cadeirydd, Yr Is-bwyllgor Adnoddau Dynol

AELODAETH

Mr T J Llewelyn, yr Hybarch P R Mackness, yr Hybarch Ddr M A R Hill, Mr A B C Davies, Mrs J A P Hayward, yr Athro A Henley, y Parch J E Parker, y Parch D L Rees, Mr N D Roberts

YR AMCANION

Goruchwylio gwaith Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth o gynllunio, monitro a datblygu polisïau Adnoddau Dynol (AD), lefelau recriwtio a staffio, hyrwyddo lles gweithwyr, adolygu ac argymell lefelau tâl gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a moesegol. Caiff hefyd ei ddiweddaru ar unrhyw faterion a datblygiadau Diogelu.

CYFLAWNIADAU ELENI

- Recriwtio a phenodi Ysgrifennydd newydd i'r Esgobaeth.
- Recriwtio unigolion allweddol yn yr adrannau Cyllid a Gweinyddol, gyda phob un ohonynt wedi gwneud cyfraniad sylweddol at fywyd yr Esgobaeth.
- Perthynas waith gref a chynhyrchiol gyda'r Ymgynghorydd Adnoddau Dynol Taleithiol.

HERIAU ELENI

Cydymffurfiaeth â'r amgylchedd rheoleiddio AD sy'n newid yn barhaus ac sydd ar adegau yn heriol.

EDRYCH YMLAEN

- Nodi cyfleoedd i wella lefelau gwytnwch cyffredinol.
- Datblygiad cydweithwyr parhaus.

Yr Is-bwyllgor Buddsoddi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Athro Andrew Henley, Cadeirydd, Yr Is-bwyllgor Buddsoddi

AELODAETH

Mr T J Llewelyn, yr Athro A G Henley, yr Hybarch P R Mackness, yr Hybarch M A Farah, y Parch W Maskell, y Parch J E Parker, Mr N Evans, Mr I Evans, Mr A Howells, Mr N D Roberts

YR AMCANION

Goruchwylio strategaeth fuddsoddi Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth o nifer o safbwyntiau a sicrhau bod ei fuddiannau gorau wrth wraidd yr holl weithgarwch buddsoddi, gan gynnwys buddsoddiadau fel ceidwad ar ran Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol unigol.

TROSOLWG O'R FLWYDDYN

Cynhyrchodd portffolio buddsoddi Tyddewi enillion o 17.2% (cyn tynnu unrhyw ffioedd) yn y flwyddyn hyd at Ebrill 2026. Mae hyn yn adlewyrchu enillion da iawn ar ecwitïau yr Unol Daleithiau sy'n cynnwys elfen sylweddol o'r portffolio. Dylid ei osod yng nghyd-destun enillion cyfartalog 5 mlynedd o 4.3% y flwyddyn, a chyfartaledd 10 mlynedd o 5.6% y flwyddyn. Mae enillion blynyddol cyfredol ychydig yn is na meincnod sector elusennau Rathbones, sy'n adlewyrchu'r safiad moesegol llym (ESG) yn unol â chyfarwyddyd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth. Y strategaeth fuddsoddi gyfredol yw dal 70% o'r portffolio mewn ecwitïau, 15% mewn gwarannau incwm sefydlog (bondiau corfforaethol a stociau gilt), 5% mewn buddsoddiadau amgen (eiddo ac ati) a 5% fel arian parod.

TROSOLWG RATHBONES (ar 29 Ebrill 2026)

Roedd prif ddangosyddion gweithgarwch economaidd byd-eang yn iach cyn ymosodiadau'r Unol Daleithiau ar Iran.

Ers yr ymosodiadau ar Iran, mae'r marchnadoedd ynni wedi profi tarfu sylweddol. Cododd prisiau olew a nwy yn sylweddol mewn ymateb i hynny. Bydd hyn yn pwyso ar dwf economaidd byd-eang.

Byddai prisiau olew o tua $90 ar gyfer y dyfodol rhagweladwy yn arwain at arafu bychan iawn ar dwf, a dim mwy. Credwn y gallai dynnu ychydig mwy na 0.1 pwynt canran oddi ar y cynnyrch domestig gros byd-eang, er y byddai'r effaith yn amrywio yn ôl gwlad. Byddai mewnforwyr ynni yn cael eu heffeithio'n waeth nag allforwyr.

Y prif risg niweidiol yw pe bai Culfor Hormuz, y mae 20% o allforion olew a nwy byd-eang yn cael eu cludo ar ei hyd, yn parhau i fod ar gau am fisoedd yn hytrach nag wythnosau.
Byddai hynny'n achosi i brisiau godi ymhellach, gan greu mwy o niwed i dwf economaidd.

Mae'r senario hwn yn bosibl, ond ymhell o fod yn anochel. Mae gan weinyddiaeth Trump gymhelliant cryf i osgoi prisiau ynni llawer uwch, a hanes o ymateb i bwysau'r farchnad.

Is-bwyllgor Eiddo Esgobaeth Tyddewi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Mr Timothy Llewelyn, Cadeirydd a Miss Emma O'Connor, Rheolwr Eiddo

AELODAETH

Mae'r Is-bwyllgor Eiddo yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, o dan gadeiryddiaeth Mr Timothy Llewelyn, ac mae'n cynnwys Aelodau Clerigol a Lleyg Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth.

YR AMCANION

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am:

- Rheoli ystâd seciwlar gyffredinol Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth (yn unol â pholisïau cymeradwy, amcanion strategol a chyllidebau wedi'u pennu gan y Bwrdd).
- Cydymffurfio â'r holl reoliadau cyfreithiol a diogelwch mewn perthynas ag unrhyw eiddo a osodwyd.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ceisio gwneud y mwyaf o'r portffolio eiddo ac felly ei incwm, er mwyn cynorthwyo'r Bwrdd gyda'r gwaith o bennu ei gyllideb, fel bod llai o geisiadau gan ein Heglwysi am Gyfran y Weinidogaeth.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ymgysylltu ag Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol/Eglwysi, Grwpiau Cymunedol a Chymdeithasau ynghylch amrywiol faterion perchnogaeth a rheoli eiddo.

HERIAU ELENI

Mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn bryderus am y canlynol: -

- Eiddo nad yw'n cael ei ddefnyddio gan Eglwysi ac Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol. Mae'r rhain yn disbyddu adnoddau AGLl gwerthfawr (h.y. costau yswiriant, costau cyfleustodau ac ati) y gellir prin eu fforddio.
- Eiddo eglwysig anhysbys. Mae'r Pwyllgor yn parhau i dderbyn gwybodaeth am eiddo nad oes ganddo waith papur ar ei gyfer. Mae gwaith ar Gofrestr Asedau i gofnodi'r holl eiddo ar y gweill.

EDRYCH YMLAEN

Mae'r Adran Eiddo wrthi'n cynnal adolygiad o Eiddo o fewn yr Esgobaeth, gyda'r gwaith yn cynnwys creu Cofrestr Asedau lawn. Bydd yr Adran yn cysylltu ag Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol maes o law gyda chais i hysbysu'r Adran Eiddo o'r holl asedau hysbys o fewn yr AGLl. Anogir Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol/Eglwysi i gysylltu ag Adran Eiddo y Bwrdd Cyllid ynglŷn ag unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag eiddo y gallai fod angen cymorth yn eu cylch.

Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth **AGENDWM 9**

Cymdeithas y Gweddwon, Plant Amddifad a Dibynyddion

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Ionawr – Rhagfyr 2025

Awdur: Mrs Nia Evans, Rheolwr Cyllid

O'r gweddwon a dderbyniodd bensiwn gan Gorff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru yn ystod 2025, roedd gan naw incwm yn is na'r lefel darged ddiwygiedig o £21,840, fel y cytunwyd arno gan Bwyllgor Pensiynau a Chymorth Esgobaethol Tyddewi. O ganlyniad, dyfarnwyd grantiau o Gronfa'r Gymdeithas Daleithiol i ddod â'u hincwm i fyny i'r trothwy y cytunwyd arno.

Er mwyn gallu talu'r grantiau hyn, cyfrannodd Pwyllgor Pensiynau a Chymorth yr Esgobaeth £33,820 i ategu Cronfa'r Gymdeithas Daleithiol.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o ddarparu grant Nadolig ychwanegol o £160 i bob gweddw, sef cyfanswm o £7,680. Mynegodd y derbynwyr eu gwerthfawrogiad diffuant am y gefnogaeth hon.

Mewn ymateb i'r galwadau cynyddol ar y Gronfa, tynnwyd £42,000 o gyfalaf o Ymddiriedolaeth 464.

Mae'r balans ar 31 Rhagfyr 2025 yn £13,006, sy'n parhau i fod ar gael i ymateb i geisiadau am grant yn y dyfodol gan wragedd a gwŷr gweddw sy'n wynebu gwariant annisgwyl.

Bwrdd Enwebu Esgobaeth Tyddewi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Paul Mackness, Cadeirydd Dros Dro 2022-24, Ysgrifennydd Clerigol 2024-

AELODAETH

Mae aelodaeth y Bwrdd Enwebu yn cynnwys:

Ex officio: Yr Esgob (Cadeirydd), Yr Archddiaconiaid (Archddiacon Tyddewi yw'r Ysgrifennydd).

Etholwyd: 1 person lleyg ar gyfer pob Archddiaconiaeth, 2 Glerig yn cynrychioli'r Esgobaeth gyfan.

Cyfetholwyd: Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth.

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ar gyfer cyfarfodydd busnes, ac fel sy'n ofynnol fel arall.

YR AMCANION

- Prif ddyletswydd y Bwrdd yw cynorthwyo'r Esgob i wneud enwebiadau a phenodiadau i fywoliaethau gwag.
- Mae'r Bwrdd hefyd yn monitro nifer presennol y clerigion a lle maen nhw'n gweithio ac yn cynghori ar flaenoriaethau ar gyfer hysbysebu swyddi gwag.
- Mae aelodau'r Bwrdd fel arfer yn rhan o unrhyw banel cyfweld (fe'u dewisir fel arfer ar sail lleoliad daearyddol).

CYFLAWNIADAU ELENI

Roedd y Bwrdd wedi llwyddo i gadw nifer y clerigion o fewn y nifer o gyflogau y cytunwyd arnynt ar gyfer yr Esgobaeth (84-85 Cyfwerth ag Amser Llawn ar hyn o bryd).

Mae'r Bwrdd wedi gweithio gydag Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol i lunio rhai proffiliau plwyf da iawn, gan sefydlu arddull proffil newydd.

Mae nifer o swyddi wedi'u llenwi yn sgil cyswllt personol neu drwy ddull herwhela ymgeiswyr.

HERIAU ELENI

Mae'r Bwrdd wedi hysbysebu nifer o swyddi, ac er bod sawl un wedi mynegi diddordeb, ni chafwyd llwyddiant yn denu ceisiadau go iawn. Ymddengys fod hyn yn duedd mewn llawer o esgobaethau ledled y DU. Mae cost hysbysebu yn y *Church Times* yn cynyddu.

Bydd yr Esgobaeth tua 10 clerig yn brin o'r nifer angenrheidiol o glerigion cyflogedig y cred yr Esgob sy'n angenrheidiol i gynnal yr Esgobaeth yn effeithiol erbyn diwedd 2026 oni bai y gwelir cynnydd o ran recriwtio neu alwedigaethau. Mae hyn yn gosod beichiau ychwanegol ar glerigion presennol sydd eisoes yn ysgwyddo llawer iawn o gyfrifoldebau gweinidogaethol.

EDRYCH YMLAEN

Yn y flwyddyn i ddod bydd y Bwrdd yn parhau i geisio ceisiadau gan ddarpar glerigion i lenwi swyddi gwag ac yn monitro'r niferoedd er mwyn sicrhau eu bod o fewn y gwariant cyflog cyllidebol. Bydd y Bwrdd hefyd yn edrych ar ddulliau ychwanegol o hysbysebu i ehangu cyrhaeddiad unrhyw chwiliad, a hefyd yn parhau i bwyso ar gysylltiadau personol a dull herwhela ymgeiswyr.

Pwyllgor Bugeiliol ac Eglwysig Esgobaeth Tyddewi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Paul Mackness, Cadeirydd y Pwyllgor Bugeiliol ac Eglwysig

AELODAETH

Ex Officio: Esgob, Archddiaconiaid (Archddiacon Tyddewi yw'r Cadeirydd) Cadeirydd Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth, Cadeirydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth

Enwebwyd: 3 Chlerig (1 o bob Archddiaconiaeth)

Etholwyd: 3 Aelod Lleyg (1 o bob Archddiaconiaeth)

YR AMCANION

- Edrych ar ddefnydd bugeiliol a hyfywedd Adeiladau Eglwysig
- Gweinyddu'r gwaith o Gau Adeiladau Eglwysig a gwneud Eglwysi yn Ddiangen
- Gweinyddu system Grantiau Atgyweirio a Chynnal a Chadw Eglwysi
- Goruchwylio'r rhaglen Arolwg Pum Mlynedd
- Cynghori'r Esgob, y Pwyllgor Sefydlog a'r Bwrdd Enwebu mewn perthynas â Newidiadau i Ffiniau a Blaenoriaethau o ran Swyddi Gwag
- Cynghori ar Eglwysi sy'n ymuno â Chynllun Eglwysi Pererinion y Dalaith

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae Pwyllgor Bugeiliol ac Eglwysi yr Esgobaeth wedi gallu dyfarnu nifer o Grantiau Atgyweirio a Chynnal a Chadw (hyd at £7,500) i eglwysi o fewn Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol. Mae nifer y ceisiadau wedi bod yn cynyddu a derbyniwyd nifer o geisiadau ailadroddus. Mae'r Pwyllgor wedi goruchwylio'r broses ar gyfer nifer o eglwysi sydd wedi cael eu cau a'u symud tuag at fod yn eglwysi diangen – gan sicrhau bod gweithdrefnau'n cael eu dilyn a'u cwblhau cyn argymell i'r Esgob eu bod yn cael eu datgan yn ddiangen.

Cafwyd adolygiad radical o holl Adroddiadau Cyflwr Gosodiadau Trydanol eglwysi, gyda hynny'n arwain at gau eglwysi dros dro nes bod adroddiadau neu waith angenrheidiol yn cael eu gwneud.

HERIAU ELENI

Mae'r broses o gau eglwysi a'u gwneud yn ddiangen yn aml yn cael ei oedi gan nad yw Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol yn dilyn y mecanwaith ar gyfer cau a gwneud eglwysi'n ddiangen. Mae'r rhan fwyaf o oedi yn ymwneud â methiannau i sicrhau bod hawlebau priodol ar waith ar gyfer tynnu, adleoli a gwaredu cynnwys yr eglwysi.

EDRYCH YMLAEN

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio symud 2 eglwys, Trefelen a Llanychâr, i Gynllun Eglwysi Pererinion y Dalaith erbyn diwedd 2026. Bydd y Pwyllgor hefyd yn gweithio gyda'r Grŵp Garddio, yr Esgob, yr Uwch Staff, Bwrdd Cyllid yr Esgobaeth a'r Pwyllgor Sefydlog i helpu gyda'r argymhellion sy'n deillio o Gam 4 *Tocio am Dyfiant.* Gall hyn gynnwys cau a gwneud adeiladau eglwysig yn ddiangen, a fydd yn dod â llwythi gwaith ychwanegol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn dymuno cynyddu'r defnydd o Grantiau Atgyweirio a Chynnal a Chadw Eglwysi. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro Adroddiadau Cyflwr Gosodiadau Trydanol.

Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Mrs Jan Every, Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth/Swyddog Gofal am Eglwysi

AELODAETH

Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yw'r prif gorff sy'n cynghori Canghellor yr Esgobaeth ac mae'n cael ei gadeirio gan aelod lleyg o'r pwyllgor. Mae'n cynnwys y tri Archddiacon, Cofrestrydd yr Esgobaeth, dau aelod a benodwyd gan y Gynhadledd Esgobaethol yn ogystal ag aelodau lleyg a chlerigion sy'n cynnig cyngor arbenigol (e.e. pensaernïaeth, archaeoleg, hanes, gwydr lliw, clychau, organau a thecstilau). Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael ei wasanaethu gan Ysgrifennydd a Chynorthwyydd sy'n cydlynu ei waith. Mae mwyafrif yr Aelodau yn wirfoddolwyr, ac mae'r Esgobaeth yn dibynnu ar haelioni'r gwirfoddolwyr hyn i roi o'u hamser a'u harbenigedd.

YR AMCANION

Prif amcan y Pwyllgor Cynghori yw gweinyddu'r broses hawlebau trwy'r System Hawlebau Ar-lein. Drwy gyfarfodydd a thrafodaethau, mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Canghellor wrth benderfynu ar geisiadau am hawlebau llawn a hefyd yn cynghori'r Cofrestrydd ar geisiadau Rhestr B. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnig arweiniad a chyngor i Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod chwe gwaith, gyda phedwar ohonyn nhw'n cynnwys cyfarfodydd gyda'r Pwyllgor Cynghori ar Adeiladwaith, sy'n gysylltiedig â'r Eglwys Gadeiriol. Dyfarnwyd 11 o geisiadau hawleb llawn, gyda deg yn dal i aros i'w cwblhau'n ymarferol. Dyfarnwyd 29 cais hawleb Rhestr B. Cyflwynwyd deg cais hawleb Rhestr A. Mae 29 o geisiadau hawleb yn dal i fod yn y camau paratoi.

Mae nifer o geisiadau hawleb yn destun oedi neu nid oes modd bwrw ymlaen â hwy oherwydd gwybodaeth annigonol, diffyg manylion technegol, a rhai oherwydd nad ydynt wedi'u llunio gyda chymorth cynghorydd proffesiynol (e.e. pensaer). Mae'n bwysig bod unrhyw ymgeiswyr yn sicrhau eu bod yn dilyn canllawiau'r System Hawlebau Ar-lein cyn cyflwyno cais. Mae Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ar gael i gynnig cyngor ar y broses hon.

HERIAU ELENI

Mae yna ddiffyg dealltwriaeth o'r broses hawlebau ymhlith clerigion ac ymgeiswyr lleyg o hyd. Mae'r gwaith wedi ôl-gronni oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth yr adran.

Mae rôl ychwanegol Cynorthwyydd Gofal Eglwysi wedi'i chreu, ac mae'r gefnogaeth hon yn cyfrannu'n dda at fynd i'r afael â'r ôl-groniad a'r gwaith parhaus.

Mae ymgeiswyr yn cwyno nad yw'r System Hawlebau Ar-lein yn hawdd iawn i'w defnyddio.

EDRYCH YMLAEN

Mae llyfryn canllaw yn cael ei baratoi i gynorthwyo clerigion a lleygion i lywio'r system hawlebau ac i fynd i'r afael â materion eraill. Bydd y Cynorthwyydd Gofal Eglwysi yn parhau i gynghori ymgeiswyr ar eu ceisiadau, yn enwedig ceisiadau Rhestr B, gan sicrhau bod Cofrestrydd yr Esgobaeth yn meddu ar yr holl wybodaeth sydd ei hangen er mwyn eu prosesu.

Y Gyfarwyddiaeth Addysg (ac Ysgolion Gwaddoledig) **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: y Parchedig Ganon Ganghellor John Cecil, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth

AELODAETH

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn cael ei chadeirio gan Archddiacon Tyddewi, y prif swyddogion yw'r Cyfarwyddwr Addysg a'r Swyddog Ysgolion. Mae aelodaeth y Gyfarwyddiaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Sefydlog, Penaethiaid Ysgolion yr Eglwys, Ymwelwyr yr Esgob, Clerigion, arolygwyr Adran 50 a Llywodraethwyr Ysgolion. Mae'r Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig yn cael ei gadeirio gan y Parchedig Ganon Ganghellor John Cecil.

YR AMCANION

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn goruchwylio gwaith ysgolion eglwysig yn yr Esgobaeth. Gwneir hyn yn bennaf trwy Gyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, y Swyddog Ysgolion, a'n Llywodraethwyr Sefydledig ac Ymwelwyr yr Esgob. Mae'r Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig yn gyfrifol am ariannu ein hysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol a'n hysgolion a reolir yn wirfoddol, a dyma yw adain ariannol y Gyfarwyddiaeth Addysg. Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg yn cyfarfod fel y Pwyllgor Ysgolion dair gwaith y flwyddyn, fel arfer yn un o ysgolion yr Eglwys.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae'r Gyfarwyddiaeth Addysg wedi darparu cymorth i holl ysgolion yr Eglwys ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethu, staffio, cyllid a dysgu ac addysgu. Mae cynllun Gwobr yr Esgob yn cael ei ddefnyddio gan ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, ac mae un wedi llwyddo i ennill y Wobr Efydd. Bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i ysgolion a reolir yn wirfoddol ym mis Medi 2026. Mae'r wobr yn cydnabod cyflawniadau ac yn helpu ysgolion i baratoi ar gyfer eu harolygiad Adran 50.

Mae fframwaith arolygu Adran 50 newydd bellach ar waith. Mae Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth a'r Swyddog Ysgolion wedi cynnig hyfforddiant a ffug arolygiadau i helpu ysgolion i baratoi. Mae'r ysgolion sydd wedi cael eu harolygu wedi cyflawni canlyniadau rhagorol gyda gofyn i rai ysgrifennu adroddiadau 'sbotolau' i dynnu sylw at eu harfer da.

Mae'r Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig wedi cefnogi ysgol Maenorbŷr ac ysgol Cilgerran i wrthsefyll ymdrechion Cyngor Sir Penfro i orfodi eu cau. Mae'r ddau achos yn cyflwyno heriau cyfreithiol cymhleth. Mae Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth a'r Swyddog Ysgolion wedi cynnig cefnogaeth fugeiliol ac mae ymweliadau gan yr Esgob wedi cael eu gwerthfawrogi'n fawr.

HERIAU ELENI

Mae ysgolion yn wynebu pwysau cyllidebol, ac mae hynny'n cael ei deimlo'n ddwysach fyth mewn ysgolion bach ac ysgolion gwledig. Mae llawer o ysgolion yn wynebu niferoedd sy'n gostwng, ac mae hyn yn golygu bod yr arian sydd ar gael i ysgolion yn lleihau. Mae gormod o ddisgyblion 3-16 eisiau lle yn Ysgol Penrhyn Dewi, ac mae'n rhaid i nifer cynyddol o deuluoedd fynd i apêl i geisio sicrhau lle yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu ar gapasiti. Mae'r Pwyllgor Ysgolion Gwaddoledig yn delio â rhai materion sylweddol sy'n ymwneud ag adeiladau ysgolion ac nid yw bob amser yn derbyn cymorth a chefnogaeth gan Awdurdodau Lleol.

EDRYCH YMLAEN

Bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg yn parhau i gefnogi ysgolion yr Eglwys gan sicrhau bod y ffydd Gristnogol wrth wraidd popeth maen nhw'n ei wneud.

Tasglu Plant, Ieuenctid a Theuluoedd **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026
Awdur: Yr Hybarch Paul Mackness, Cadeirydd y Tasglu

AELODAETH

Archddiacon Tyddewi (Cadeirydd), Archddiacon Cenhadol (Is-gadeirydd), Cenhadwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, Cyfarwyddwr Addysg yr Esgobaeth, Swyddog Ysgolion, Swyddog Cyfrifoldeb Cymdeithasol, Prif Swyddog Gweithredol *Plant Dewi,* Mrs S Henley, y Parch N Hook, y Parch J Allen (hyd at fis Ionawr 2026)

YR AMCANION

- Cefnogi a goruchwylio gwaith y Cenhadwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd
- Gweithio ar draws Strwythurau Esgobaethol mewn perthynas â Phlant, Ieuenctid a Theuluoedd gan sicrhau cydweithredu, osgoi dyblygu gwaith a rhoi diwedd ar weithio mewn ffordd ynysig
- Goruchwylio Blwyddyn Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Esgobaeth
- Dyfarnu Grantiau Plant, Ieuenctid a Theuluoedd i Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol, Eglwysi, Ysgolion a sefydliadau cysylltiedig eraill
- Derbyn adroddiadau rheolaidd gan Plant Dewi, Addysg a Chenhadaeth mewn perthynas â'u gwaith.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae'r Tasglu yn falch o adrodd am lansiad llwyddiannus y Flwyddyn Plant, Ieuenctid a Theuluoedd, a chyflwynwyd adnoddau a digwyddiadau ychwanegol yn ail hanner 2025. Roedd hyn yn cynnwys cynhadledd arbennig yng Ngholeg Sir Benfro o'r enw *"Heyrn yn y Tân"* a *Gŵyl Rhyddid* Plant, Ieuenctid a Theuluoedd ar Faes Sioe y Siroedd Unedig yng Nghaerfyrddin. Cafwyd Pererindod Ieuenctid lwyddiannus arall hefyd.

HERIAU ELENI

Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar hyfforddiant yn amrywio, a chafwyd heriau i sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i staff a chymorth mewn digwyddiadau a gynhelir ledled yr Esgobaeth.

EDRYCH YMLAEN

Gweithio gyda'r Esgob a'r Archddiacon Cenhadol i helpu gyda'r Flwyddyn Genhadaeth – *Agored i Dduw* yn 2026 a 2027.

Cyflwyno Pererindod Ieuenctid Esgobaethol arall.

Parhau i ddarparu adnoddau, hyfforddiant a chyngor i Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol ar faterion Plant, Ieuenctid a Theuluoedd.

Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: y Parchedig Ddr Jonathon Wright, Cyfarwyddwr y Weinidogaeth

AELODAETH

Mae Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth yn cynnwys y 4 Archddiacon, Cyfarwyddwr y Weinidogaeth a'r swyddogion a benodwyd i arwain ar wahanol feysydd gweinidogaeth. Maen nhw'n cynnwys: y Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol a'i gynorthwyydd, y Cyfarwyddwr Galwedigaethau (y Cynghorydd Galwedigaethau arweiniol), Caplan Arweiniol y Gymdeithas Galwedigaethau, Swyddog Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth, Swyddog Gweinidogion Trwyddedig Newydd, Swyddog Gweinidogaeth Leyg, Warden y Darllenwyr ac arweinydd y Coleg Cyfarwyddwyr Ysbrydol. Mae'r Esgob yn cadeirio Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cyfarfod yn ffurfiol dair gwaith y flwyddyn.

YR AMCANION

Mae Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth yn goruchwylio'r ddarpariaeth o weinidogaeth leyg ac ordeiniedig yn yr Esgobaeth, gan gynnwys dirnadaeth a hyfforddiant. Mae'r Gyfarwyddiaeth yn cynghori'r Esgob ar bolisi gweinidogaethu, ond ei phrif ffocws yw cyflawni, cydlynu a datblygiad yn y weinidogaeth.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae'r rhan fwyaf o gyflawniadau Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth yn cael eu cynnwys yn adroddiadau swyddogion sy'n cynnwys Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth. Mae'r rhestr o gyflawniadau yn gasgliad o uchafbwyntiau cryno:

- gweithredu Llwybr Galwedigaethau newydd i sicrhau gwell cydlynu ar hyd y llwybr o alwedigaethau i weinidogaeth ordeiniedig;
- nifer o alwedigaethau lleyg ac ordeiniedig yn cael eu cefnogi trwy'r Llwybr Galwedigaethau newydd;
- gweithredu fframwaith cymhwysedd ac adrodd newydd i guradiaid;
- rhaglen lawn datblygiad parhaus yn y weinidogaeth;
- trefnu a chynnal yr Ysgol Glerigion gyntaf ers dros ddegawd;
- cyflwyno dyddiau i annog a chefnogi gweinidogaeth leyg (Darllenwyr Lleyg ac Arweinwyr Addoliad Lleyg);
- dechrau hyfforddiant ar gyfer gweinidogion sy'n goruchwylio Gweinidogion â Ffocws
- mae grŵp llyfrau chwarterol i glerigion wedi cyfarfod ar *Zoom*, gyda niferoedd y cyfranogwyr yn cynyddu
- Cwblhawyd yr Adolygiad o Ddatblygiad yn y Weinidogaeth ar gyfer pob clerig cyflogedig a digyflog y mae'n berthnasol iddo (h.y., heb gynnwys y rhai sy'n gadael neu'n ymddeol, a'r rhai sy'n dioddef o salwch hirdymor).

HERIAU ELENI

Mae swyddogion Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth yn cyfuno eu tasgau Gweinidogaeth â chyfrifoldebau gweinidogaeth eraill. Yn ogystal, mae gwaith Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth wedi digwydd yng nghyd-destun *Tocio am Dyfiant* a blwyddyn gyntaf mentrau cenhadaeth *Agored i Dduw* yr Esgobaeth yn ogystal â chynllunio ar gyfer *Diwrnod Allan yr Esgobaeth*. Dylid ystyried cyflawniadau Cyfarwyddiaeth y Weinidogaeth yng ngoleuni'r gefnogaeth i'r blaenoriaethau esgobaethol hyn.

EDRYCH YMLAEN

Cafodd yr awenau eu pasio'n drylwyr gan ei ragflaenydd i'r Cyfarwyddwr Gweinidogaeth newydd, y Parchedig Ganon Ddr Rhiannon Johnson. Cyhoeddir polisi Taleithiol newydd cyn bo hir ar Gyfeiriad Ysbrydol. Bydd y Parch Andrew Johnson yn ymddeol o'r weinidogaeth yng nghanol 2026 felly bydd angen ail-ffurfio'r Coleg yn 2026-7.

Adroddiad Darllenwyr (Gweinidogion Lleyg Trwyddedig) **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Mones Farah

AELODAETH

Yr Hybarch Mones Farah, Warden y Darllenwyr

YR AMCANION

Cefnogi a datblygu gweinidogaeth Darllenwyr yn yr Esgobaeth

CYFLAWNIADAU ELENI

Argymhellwyd un ymgeisydd a oedd archwilio galwad i weinidogaeth Darllenydd ar gyfer hyfforddiant a dechreuodd ei ffurfiant yn ystod y flwyddyn.

Roedd Diwrnod Darllenwyr, a gynhaliwyd ar y cyd ag arweinwyr addoli yn Nhredeml gyda chefnogaeth Resourcing Renewal, yn gyfle i rannu dysgu, annog a chydweithio. Bu dod â Darllenwyr ac Arweinwyr Addoli at ei gilydd yn fodd o atgyfnerthu'r perthnasoedd rhyngddynt a chefnogi twf a datblygiad parhaus yn y weinidogaeth leyg ar draws yr Esgobaeth.

HERIAU ELENI

Cafwyd sawl her yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cefnogi tri Darllenydd a ofynnodd am gael trosglwyddo o weinidogaeth weithredol i statws Darllenydd Emeritws. Ochr yn ochr â rheoli'r newidiadau hyn yn sensitif, mae'r angen i annog a recriwtio Darllenwyr newydd yn parhau o hyd. Mae proffil cynyddol oedrannus y weinidogaeth ac effaith gynyddol cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn amlygu pwysigrwydd meithrin galwedigaethau yn y dyfodol a sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gweinidogaeth Darllenwyr ar draws yr Esgobaeth.

EDRYCH YMLAEN

Mae blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys parhau i ddarparu hyfforddiant Diwrnod Darllenwyr, cefnogi datblygiad Darllenwyr dan hyfforddiant ar hyn o bryd ac annog eraill i ymateb i alwad i weinidogaeth Darllenwyr. Bydd hefyd yn bwysig llywio'r newid mewn strwythur a theitl Gweinidog Lleyg Trwyddedig yn ofalus ac yn effeithiol, gan sicrhau bod y rhai sy'n ymwneud â'r weinidogaeth yn teimlo eu bod yn wybodus, ac yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi trwy gydol y cyfnod pontio.

Addysg Gychwynnol y Weinidogaeth **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: y Parchedig Ddr Jonathon Wright

YR AMCANION

Hyfforddiant a ddarperir yn benodol ar gyfer Gweinidogion Trwyddedig Newydd. Eleni, mae hyn wedi canolbwyntio ar glerigion sydd wedi'u hordeinio'n ddiweddar (Curadiaid Cynorthwyol).

Ar gyfer gweinidogion ordeiniedig, mae hyfforddiant Gweinidogion Trwyddedig Newydd yn parhau am gyfnod cu curadiaeth, ac mae'n bosibl y bydd elfennau a fydd yn cael eu cwblhau mewn swydd o gyfrifoldeb cyntaf. Mae dwy elfen i'r hyfforddiant – hyfforddiant Gweinidogion Trwyddedig Newydd a drefnir yn daleithiol, sy'n cael ei weinyddu a'i redeg trwy Athrofa Padarn Sant, a hyfforddiant Gweinidogion Trwyddedig Newydd Esgobaethol.

Pwrpas yr hyfforddiant Esgobaethol yw ehangu a chyfoethogi'r cyfleoedd i Guradiaid Cynorthwyol dyfu fel gweinidogion a'u paratoi ar gyfer swydd o gyfrifoldeb cyntaf.

Rôl y Swyddog Gweinidogion Trwyddedig Newydd yw:

- trefnu a chyflwyno pecyn o hyfforddiant i'r rhai yn eu blwyddyn gyntaf o'r weinidogaeth, a'r garfan yn yr ail flwyddyn a thu hwnt, i gysylltu â Pherigloriaid Hyfforddi;
- sicrhau bod cytundeb hyfforddi ar waith rhwng pob Curad Cynorthwyol a'u Deiliad Hyfforddi;
- darparu pwynt cyswllt cyntaf ar ôl y Periglor Hyfforddi i ddatrys anawsterau neu anghytundebau ar gyfer Curaduriaid Cynorthwyol;
- cefnogi'r Archddiacon gyda'r portffolio ar gyfer y weinidogaeth drwy gynnull Perigloriaid Hyfforddi 3 gwaith y flwyddyn ar gyfer trafod a hyfforddi;
- datblygu polisi hyfforddi ac adrodd ar gyfer Gweinidogion Trwyddedig Newydd esgobaethol;
- darparu adroddiad blynyddol i'r Esgob am bob Curad Cynorthwyol ar y cyd â'r Periglor Hyfforddi.

CYFLAWNIADAU ELENI

Eleni, gwelwyd y canlynol:

- darparwyd pecyn hyfforddi ar gyfer carfannau'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn;
- cyfarfodydd rheolaidd i Berigloriaid Hyfforddi;
- datblygu a gweithredu system adrodd ddiwygiedig i guradiaid;
- datblygu a gweithredu'r cymwyseddau disgwyliedig ar gyfer Curadiaid ar wahanol gamau yn eu gweinidogaeth.

Y pecyn hyfforddi ar gyfer 2025-26 oedd:

Blwyddyn 1:

- Calendr, tymhorau litwrgaidd a gwisg glerigol yr Eglwys (Medi 2025)
- Ymweliad bugeiliol (Tachwedd 2025)
- Encil eglwysig 2 ddiwrnod yn Llangasty Tal-y-Llyn gydag esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu, dan arweiniad yr Archesgob Rowan Williams (Ionawr 2026)
- Bedydd, paratoi ar gyfer bedydd a dilyniant (Mai 2026)
- Gweinidogaethu angladd (Mehefin 2026)

Blwyddyn 2+

- Yr eglwys gadeiriol a'r Cymundeb Anglicanaidd (Medi 2025)
- Trefnu Astudiaeth Feiblaidd (Tachwedd 2025)
- Encil eglwysig 2 ddiwrnod yn Llangasty Tal-y-Llyn gydag esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu, dan arweiniad yr Archesgob Rowan Williams (Ionawr 2026)
- Conffyrmasiwn, paratoi a dilyniant (Mai 2026)
- Darllen yn well (Mehefin 2026)

HERIAU ELENI

- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael ac wedi'i gyflwyno'n briodol ar gyfer yr amrywiaeth o Guradiaid Cynorthwyol Cyflogedig a Digyflog.
- Osgoi gwrthdaro â hyfforddiant Gweinidogion Trwyddedig Newydd Taleithiol, Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth yr Esgobaeth a galwadau eraill ar Guradiaid Cynorthwyol.
- Gwreiddio cymwyseddau a system adrodd Curadiaid newydd. Dyma'r flwyddyn gyntaf.
- Sicrhau ymgysylltiad priodol gan yr holl Guradiaid Cynorthwyol.

EDRYCH YMLAEN

Mae'r cyfnod trosglwyddo a'r gefnogaeth gan y cyn-Swyddog Gweinidogion Trwyddedig Newydd wedi bod yn amhrisiadwy. Bydd angen amser ar y systemau newydd a roddwyd ar waith eleni i wreiddio. Mae'r drefn bresennol yn gynaliadwy gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: y Parch Lynn Rees, Swyddog Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth

AELODAETH

Y Parchedig Ddr Jonathon Wright, Cyfarwyddwr y Weinidogaeth, y Parch Lynn Rees, Swyddog Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth.

Darperir diwrnodau hyfforddi Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth i glerigion a darllenwyr trwyddedig i gefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus. Mae presenoldeb yn orfodol i glerigion cyflogedig amser llawn ac yn ddewisol i weinidogion hunangynhaliol. Gwahoddir clerigion wedi ymddeol a darllenwyr trwyddedig hefyd i fynychu sesiynau hyfforddi Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth.

YR AMCANION:

Pwrpas Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth yw meithrin diwylliant o ddysgu gydol oes o fewn yr Esgobaeth ac arfogi clerigion gyda'r sgiliau a'r galluoedd, yn ymarferol ac ysbrydol, i gyflawni eu gweinidogaeth.

Mae diwrnodau hyfforddi Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth hefyd yn cynnig cyfle pwysig ar gyfer rhannu cymdeithas, ac i glerigion ledled yr Esgobaeth gyfarfod ac addoli gyda'i gilydd.

CYFLAWNIADAU ELENI

Dros y flwyddyn ddiwethaf cynhaliwyd pedair sesiwn hyfforddi wyneb yn wyneb llwyddiannus iawn ar y pynciau canlynol.

- Dydd Mawrth, 25 Mawrth 2025: "Galwedigaeth a Galwad" dan arweiniad y Canon Mark Ansell.
- Dydd Iau, 19 Mehefin 2025: "Agored i Dduw" dan arweiniad yr Archddiacon Mones Farah.
- Dydd Iau, 25 Medi 2025: Llywodraethu Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol, dan arweiniad yr Archddiaconiaid.
- Dydd Mercher, 25 Mawrth 2026: "Bonhoeffer" dan arweiniad y Parchedig Ddr John McCabe.

HERIAU ELENI

Yr her fwyaf yw sicrhau bod lleoliadau addas ar gael – lleoliadau sy'n ddaearyddol ganolog, sy'n gallu darparu ar gyfer nifer y clerigion sy'n mynychu ac sydd o fewn ein cyllideb. Oherwydd nad oedd Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn ar gael, rhaid oedd talu costau uwch wrth archebu lleoliadau amgen fel Campws Llanbedr Pont Steffan y Drindod Dewi Sant. Mae'r Clwb Rygbi, fodd bynnag, wedi cadarnhau ei fod ar gael ar gyfer rhai digwyddiadau yn y dyfodol.

EDRYCH YMLAEN

Mae rhaglen o sesiynau hyfforddi yn cael ei datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ddarparu hyfforddiant perthnasol o bob math. Bydd y sesiwn nesaf, ar 11 Mehefin, yn trafod y Flwyddyn Litwrgaidd, gyda'r Parch Ainsley Griffith yn arwain.

Y Gymdeithas Galwedigaethau **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: y Parch Carys Hamilton, Cydlynydd y Gymdeithas Galwedigaethau

AELODAETH

Mae'r aelodaeth bresennol, ar gyfartaledd, yn cynnwys 56 aelod, gyda 43-45 ohonyn nhw'n aelodau gweithredol, Caplaniaid y Gymdeithas Galwedigaethau, Cynghorwyr Galwedigaethau a'r pedwar Archddiacon.

YR AMCANION

Prif amcan y Gymdeithas Galwedigaethau yw cefnogi, arwain ac annog pawb sy'n ceisio ac yn archwilio eu Galwedigaeth a galwad Duw ar eu bywyd. Anogir grwpiau'r Gymdeithas Galwedigaethau i gyfarfod yn rheolaidd bob 4-6 wythnos a dilyn canllawiau grwpiau addoli a thrafod strwythuredig. Mae'r Gymdeithas yn ymdrechu'n ffyddlon i annog ac ymgysylltu â'r rhai sy'n archwilio eu galwedigaethau yn ddwys ac sy'n tawel ddirnad galwad Duw ar eu bywydau. Cynhelir cynhadledd flynyddol ddiwedd mis Tachwedd fel arfer (Crist y Brenin) sy'n dod â phawb at ei gilydd mewn un lle. Gwahoddir siaradwyr ysbrydoledig i rannu eu profiadau ac i arwain y rhai sy'n chwilio am alwedigaethau. Neilltuir digon o amser yn ystod y penwythnos i addoli, gweddïo gyda'n gilydd ac i drafod ar sail un-i-un y ffordd ymlaen i ddarpar ymgeiswyr.

CYFLAWNIADAU ELENI

Y prif gyflawniadau oedd cynhadledd lwyddiannus iawn a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Stradey Park, Llanelli. Mae Caplaniaid a Chynghorwyr Galwedigaethau newydd wedi ymgymryd â'u rolau yn ddiwyd ac wedi ymdrechu i annog a meithrin y rhai sy'n ceisio ac yn archwilio galwad Duw ar eu bywydau. Mae caplaniaid wedi adrodd bod sesiynau gyda'u haelodau yn dod â phobl at ei gilydd mewn undeb ac mae cyfeillgarwch personol hefyd wedi datblygu o ganlyniad i sesiynau'r Gymdeithas Galwedigaethau.

HERIAU ELENI

Prif heriau eleni oedd setlo i'r system newydd ac ymgyfarwyddo â'r newidiadau. O fewn grwpiau'r Gymdeithas Galwedigaethau, mae'r Caplaniaid yn adrodd ei bod hi'n gynyddol anodd pennu dyddiadau ac amseroedd pan fydd pob aelod ar gael i gyfarfod. Mae bywyd mor brysur i gymaint o bobl fel bod hynny'n profi'n her, a dyma lle mae cyfarfodydd Zoom/Teams wedi ei gwneud hi'n haws i bobl gyfarfod gyda'i gilydd ar-lein.

EDRYCH YMLAEN

Wrth i ni edrych ymlaen at y flwyddyn i ddod, mae'r Gymdeithas Galwedigaethau yn parhau'n ymrwymedig i annog a chefnogi pawb sy'n dirnad galwad Duw ar eu bywydau. Mewn byd sy'n newid ac o fewn bywyd yr Eglwys, mae'r angen i feithrin galwedigaethau gyda doethineb, tosturi, a ffyddlondeb yn parhau i fod yn bwysig iawn.

Galwedigaethau **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: y Parch Jim Flanagan, Cydlynydd Galwedigaethau

AELODAETH

Mae'r tîm Galwedigaethau yn cynnwys Cydlynydd Galwedigaeth, Cydlynydd y Gymdeithas Galwedigaethau, nifer o gynghorwyr galwedigaethau a chaplaniaid y Gymdeithas Galwedigaethau ac mae'n gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol, y Cyfarwyddwr Ordinandiaid Esgobaethol Cynorthwyol, Cyfarwyddwr y Weinidogaeth a rhanddeiliaid eraill.

YR AMCANION

Annog galwedigaethau i Weinidogaeth Gristnogol gyda phwyslais ar weinidogaeth ordeiniedig, gweinidogaeth drwyddedig a gweinidogaeth gomisiynedig. Yn ogystal â meithrin a dirnad unigolion posibl, annog eu twf ffurfiannol a'u cynorthwyo ar hyd y llwybrau galwedigaethol esgobaethol a thaleithiol.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae nifer o ymgeiswyr wedi dod i mewn i'r system ac mae ymgeiswyr presennol wedi bod yn symud ymlaen trwy'r gwahanol gamau. Mae'r broses wedi cael ei newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i'w gwneud hi'n fwy syml i'w rheoli a sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y sylw haeddiannol. Mae Cynghorwyr Galwedigaeth newydd wedi'u penodi ac mae un pwynt mynediad i'r llwybr galwedigaethau wedi'i sefydlu. Mae rhaglen y Gymdeithas Galwedigaethau hefyd wedi'i hailwampio gyda chaplaniaid newydd ac mae'r rhai sy'n ymwneud â'r Gymdeithas yn gweithio'n agos gyda'r Cynghorwyr Galwedigaeth a'r Cydlynydd Galwedigaethau.

HERIAU ELENI

Mae dod i arfer â system newydd gyda phobl newydd wedi bod yn her fach ar lefel leol. Byddai mwy o ymgeiswyr yn dod trwy'r system hefyd o fudd, ond y gobaith yw y bydd hyn yn gwella gydag amser.

EDRYCH YMLAEN

Mae gweithio gyda chlerigion lleol i gynyddu nifer yr ymgeiswyr sy'n dod i mewn i'r system yn nod ar gyfer y dyfodol, yn ogystal ag 'addasu' y system newydd yn ôl yr angen i sicrhau bod pethau'n rhedeg mor esmwyth â phosibl.

Tîm Blwyddyn Genhadaeth Agored i Dduw **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Mones Farah, Archddiacon Cenhadol

AELODAETH

Y Parchedig Ganon Alan Chadwick, y Parchedig Ganon Jonathon Wright, y Parchedig Ganon Sheridan James, y Parch Samuel Patterson, y Parch Sophie Whitmarsh, y Parch Nicola Jones, y Parch Wyn Maskell, y Parch Kristie Godden-Lamb, Mr Neil Walker.

YR AMCANION

Adfywio ac ysbrydoli ein heglwysi a'n Hardaloedd Gweinidogaeth Lleol ar gyfer cenhadaeth. Cynllunio a chynnal Digwyddiadau Pentecost *Agored i Dduw*.

CYFLAWNIADAU ELENI

Cefnogi'r gwaith o gyflwyno diwrnodau datblygiad parhaus yn y weinidogaeth sy'n canolbwyntio ar y Flwyddyn Genhadaeth a chyfrannu at ddatblygu adnoddau a seminarau CODE FP (Dathlu, Allgymorth, Disgyblaeth, Efengylu, Cymdeithas a Gweddi.

Chwarae rôl allweddol wrth lansio'r Flwyddyn Genhadaeth ac arwain Cynhadledd Esgobaethol 2025, gan gynnwys cyflwyno seminarau ar CODE FP i aelodau.

Arwain digwyddiadau cychwynnol ar draws pob Archddiaconiaeth a chydlynu trefniadau ar gyfer y Pentecost 2026, gan gynnwys lleoliadau, siaradwyr, arddangoswyr, perfformiadau cerddoriaeth a gweithgareddau i blant.

Creu a chyfrannu cynnwys ar gyfer Calendr Adfent Pure West Radio.

HERIAU ELENI

Roedd yr heriau allweddol yn cynnwys aros o fewn y gyllideb er gwaethaf costau cynyddol, sicrhau siaradwyr priodol ac ymateb i ddatblygiadau geowleidyddol a oedd yn golygu dod o hyd i siaradwr arall. Roedd aelodau'r tîm yn aml yn wynebu heriau o ran amser a chapasiti, ac felly er bod cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal, dim ond nifer fach a oedd yn cael eu mynychu gan y tîm llawn. Roedd y gefnogaeth ysgrifenyddol gyfyngedig yn golygu bod cofnodion y cyfarfodydd yn dibynnu'n helaeth ar systemau electronig. Roedd yna hefyd alw arafach na'r disgwyl ymhlith yr Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol.

EDRYCH YMLAEN

Rhoddodd y tymor gweddi *Agored i Dduw* a digwyddiadau penwythnos y Pentecost gyfleoedd i annog Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol i dyfu ar draws pob agwedd ar CODE FP, gyda phwyslais arbennig ar Allgymorth ac Efengylu. Drwy'r mentrau hyn, ceisiodd y tîm gefnogi twf ysbrydol a thwf o ran niferoedd, gyda'r nod o weld hynny'n troi'n effaith gymdeithasol weladwy a thrawsnewidiol o fewn cymunedau ledled yr Esgobaeth. Drwy arfogi ac annog Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol i wreiddio gwir ystyr bod yn ddisgybl ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u cyd-destunau lleol, mae'r tîm yn gobeithio meithrin eglwysi sy'n tyfu mewn ffydd ac yn cyfrannu'n ystyrlon at les y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Y Tîm Cyfathrebu **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026
Awdur: Yr Hybarch Mones Farah

AELODAETH

David Hammond Williams, Tessa Briggs, Caroline Evans, Eluned Rees, y Parchedig Ganon Dewi Roberts, y Parch Justin Arnott, y Parch Jeremy Martineau, y Parch Shirley Murphy, y Parch Richard Davies, y Parch Heulwen Evans.

YR AMCANION

Cyfathrebu'n fewnol gyda'r Ardaloedd Gweinidogaeth ac yn allanol gyda'r Esgobaeth yn gyffredinol, trwy P*obl Dewi*, y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol.

CYFLAWNIADAU ELENI

Cyhoeddwyd pedwar rhifyn o *Pobl Dewi*, gwnaed diweddariadau rheolaidd i'r wefan a'r sianeli cyfryngau cymdeithasol, a chrëwyd tudalen we Blwyddyn Genhadaeth *Agored i Dduw* bwrpasol i ddarparu adnoddau a gwybodaeth i gefnogi plwyfi ac Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol. Ochr yn ochr â hyn, comisiynwyd adolygiad cynhwysfawr o gyfathrebu a rôl y Swyddog Cyfathrebu gan gwmni ymgynghori allanol. Dyma gyfle i asesu dulliau cyfredol ac ystyried y ffordd orau i gefnogi cenhadaeth a blaenoriaethau'r Esgobaeth yn y dyfodol.

HERIAU ELENI

Absenoldeb aelodau allweddol o'r tîm oedd y brif her, a sicrhau bod yr adolygiad o gyfathrebu yn cael ei gynnal mewn modd amserol a chywir, heb unrhyw darfu pellach.
Roedd cynnal llif cyson o gynnwys hefyd yn golygu ymdrechion parhaus i ddod o hyd i erthyglau ar gyfer y wefan, ein sianeli cyfryngau cymdeithasol a *Pobl Dewi*. Yn ogystal, roedd yn bwysig cadw i fyny â thueddiadau newydd a datblygol ym maes twristiaeth grefyddol a'u goblygiadau i eglwysi a'r Esgobaeth yn ehangach, fel bod ein gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu yn ymateb yn effeithiol i gyfleoedd ac anghenion sy'n newid.

EDRYCH YMLAEN

Mae blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys adfer y tîm i'w lawn gryfder a sicrhau bod aelodau wedi'u harfogi i gefnogi amcanion cyfathrebu a chenhadaeth yr Esgobaeth yn effeithiol. Rydym hefyd yn gobeithio datblygu gwefan newydd a chryfhau ein cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, gan wella ymgysylltiad a mynediad at wybodaeth ac adnoddau. Yn ogystal, bydd recriwtio golygydd a dosbarthwr newydd ar gyfer *Pobl Dewi* yn flaenoriaeth bwysig wrth sicrhau parhad y gwaith o gynhyrchu a dosbarthu'r cyhoeddiad.

Tir Dewi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Eileen Davies

YR AMCANION

Crëwyd *Tir Dewi* i roi cymorth i ffermwyr a theuluoedd ffermio yn Esgobaeth Tyddewi, a oedd yn cael trafferth ymdopi. Cyn i Tir Dewi ddod i fod, roedd yna ddiffyg cefnogaeth, a fawr ddim ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Er bod prif amcan Tir Dewi yn parhau'r un fath, mae'r maes gwaith wedi cynyddu'n sylweddol ac erbyn hyn mae'n cwmpasu'r rhan fwyaf o Gymru.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae *Tir Dewi* wedi tyfu'n sylweddol yn ystod y 10 mlynedd ers ei sefydlu, ac mae'n darparu cefnogaeth i bawb sy'n gofyn am help ledled Cymru. Mae'r sefydliad bellach yn cael ei gydnabod fel rhan sefydledig o fyd amaeth Cymru ac mae'n cael ei barchu gan bartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, undebau'r ffermwyr, Ffermwyr Ifanc ac elusennau eraill yn y sector. Mae *Tir Dewi* a'r Samariaid wedi sefydlu menter ar y cyd i ateb galwadau cynyddol gan bobl ifanc mewn ardaloedd gwledig, ac yn ystod y flwyddyn mae'r Samariaid wedi parhau i ddarparu hyfforddiant hanfodol i holl wirfoddolwyr *Tir Dewi* er mwyn diwallu'r anghenion hyn.

Mae llwyth achosion wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda 110 o achosion ar waith ar ddechrau 2026. Mae nifer yr achosion yn uwch yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, ond mae'r nifer yn sylweddol ar hyd a lled Cymru gyfan. Diolch o galon i'r holl wirfoddolwyr am ymroddiad eu hymateb ac am sefyll ochr yn ochr â ffermwyr cyhyd ag y bo'u hangen.

HERIAU

Mae'r twf yn nifer yr achosion yn creu llawer o heriau. Maen nhw'n cynnwys:

- rheoli'r llwyth gwaith
- timau cynyddol o wirfoddolwyr, yn enwedig yng ngogledd a chanolbarth Cymru
- galwadau cynyddol am bartneriaethau
- anghenion ariannol cynyddol.

Bydd gwella seilwaith *Tir Dewi* yn sicrhau y gall ymateb i'r galw cynyddol. Mae Ms. Janine Griffiths Baker wedi setlo i mewn yn dda i'w rôl fel y Prif Swyddog Gweithredol, gan wella llywodraethu, gwneud cais am grantiau mawr, a rheoli tîm anhygoel o weithwyr ymroddedig.

EDRYCH YMLAEN

Mae angen sicrhau bod modd bodloni'r holl ofynion, felly bydd *Tir Dewi* yn parhau i chwilio am wirfoddolwyr newydd, a'u cefnogi i ddarparu'r gwasanaeth y mae galw mawr amdano, fel bod ffermwyr yn gwybod nad ydyn nhw ar eu pennau eu hunain.

Adroddiad Pwyllgor Rhyng-ffydd Esgobaeth Tyddewi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026
Awdur: Yr Hybarch Mones Farah

AELODAETH
Yr Hybarch M Farah

YR AMCANION
Annog deialog, allgymorth a digwyddiadau eciwmenaidd a rhyng-ffydd ar draws yr Esgobaeth a'r Dalaith.

CYFLAWNIADAU ELENI
Drwy bresenoldeb a chyfranogiad gweithredol yn EON (y Comisiwn Rhyng-ffydd ac Eciwmenaidd Taleithiol), sicrhaodd staff uwch fewnwelediadau a gwybodaeth werthfawr i'w helpu i lywio diwrnodau Datblygiad Parhaus yn y Weinidogaeth. Rhoddwyd sylw arbennig i'r cynnydd mewn gweithgarwch asgell dde eithafol a'i effaith ar gymunedau ledled y Dalaith, gan alluogi'r materion hyn i gael eu hystyried mewn ffordd feddylgar a bugeiliol.

Sefydlwyd perthnasoedd newydd gyda phartneriaid eciwmenaidd wrth baratoi ar gyfer digwyddiadau'r Pentecost, Agored i Dduw, gyda phresenoldeb yn nathliadau Eid yn darparu cyfleoedd ar gyfer deialog a meithrin perthynas â'r gymuned Fwslimaidd Ismailaidd.
Mae'r ymgysylltiad â ffoaduriaid o Syria hefyd wedi parhau, gan helpu i gryfhau dealltwriaeth a meithrin perthnasoedd cadarnhaol ar draws cymunedau o wahanol grefydd a chefndiroedd. Cyfrannwyd hefyd at weminar ar-lein ar weithgaredd rhyng-ffydd, a hynny drwy Athrofa Padarn Sant, ar gyfer clerigion yn y weinidogaeth.

HERIAU ELENI
Nodi partneriaid posibl a chynnal gweithgaredd ymgysylltu gweithredol yn lleol.

EDRYCH YMLAEN
Bydd Diwrnod Gweddi dros Heddwch yn cael ei gynnal gan EON yn gynnar yn yr hydref.

Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Yr Hybarch Eileen Davies, Cadeirydd

AELODAETH CEGC

Mae Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol (CEGC) yn elusen gofrestredig. Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Dorrien Davies, yw'r Llywydd; yr Hybarch Eileen Davies yw'r Cadeirydd ac mae 15 aelod arall, 5 ohonyn nhw'n ymddiriedolwyr hefyd. Mae CEGC yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i reoli a thrafod materion o bwys.

AMCANION CEGC

Prif amcan CEGC yw hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol fel elfen sylfaenol o ffydd fyw ac fel rhan annatod o genhadaeth yr Eglwys. Mae ei strategaethau ar gyfer cyflawni hyn yn cynnwys cefnogi gwaith prosiect Plant Dewi sy'n gweithio'n agos gyda theuluoedd ifanc, a Tir Dewi, elusen sy'n helpu cymunedau amaeth cefn gwlad. Drwy weithio'n rhagweithiol hefyd gyda sefydliadau ehangach ar lefel leol a chenedlaethol, mae CEGC yn ceisio nodi meysydd o bryder neu angen, gan ymateb mewn ffordd anfeirniadol.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae CEGC yn parhau i weithio gyda thîm rheoli Plant Dewi ar gynllun strategol, i gefnogi teuluoedd ar draws yr Esgobaeth ymhellach, gan estyn diolch a diolchgarwch i'r tîm cyfan am y cariad a'r gefnogaeth maen nhw wedi'u dangos yn ystod y flwyddyn, a'r gwahaniaeth maen nhw wedi'i wneud i fywydau teuluoedd ifanc. Mae Plant Dewi yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill, yn rhwydweithio ac yn ffurfio partneriaethau. Mae mamau ifanc wedi mynegi diolchgarwch personol am y gefnogaeth maen nhw wedi'i derbyn. Mae gwaith cadarnhaol Prosiect y Tadau hefyd wedi cael effaith fawr ar deuluoedd.

Mae ehangu Tir Dewi y tu hwnt i'r Esgobaeth wedi cynnig cefnogaeth i ffermwyr o bob cwr o Gymru, ac mae'r tîm wedi gweithio ochr yn ochr â Plant Dewi, Plant Ieuenctid a Theuluoedd, Timau Iechyd Meddwl, a llu o elusennau eraill i helpu teuluoedd ifanc sy'n byw yng nghefn gwlad.

Mae'r Parch Justin Arnott, y Swyddog Cyfrifoldeb Cymdeithasol, wedi parhau i ehangu ei rôl, gan hybu ymwybyddiaeth o'r angen parhaus i gefnogi unigolion a grwpiau o bobl o bob oed ledled yr Esgobaeth.

HERIAU ELENI

Mae cyllid yn parhau i fod yn heriol. Llwyddodd Plant Dewi i sicrhau dros £4k drwy Grant y Loteri Genedlaethol yn ystod y flwyddyn. Mae cyllid grant ychwanegol a chodi arian yn hanfodol i gefnogi gwaith Plant Dewi a Tir Dewi. Mae'r ymddiriedolwyr a'r staff i'w canmol am eu hymroddiad i'r gwaith, ac am eu gofal dros bawb. Mae ailsefydlu perthnasoedd, cyfarfod yn bersonol ac ymgysylltu ag Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol i hyrwyddo gwaith CEGC yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

EDRYCH YMLAEN

Bydd Plant Dewi yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 yn 2027; da chi, cefnogwch y digwyddiadau.

Mae CEGC yn parhau i edrych ar ei gylch gwaith a'i bwrpas, ac mae trafodaethau ynghylch a yw'r enw yn adlewyrchu gwir waith a phwrpas y Cyngor yn parhau.

Mae lles cymdeithasol ein Hesgobaeth yn fater brys i'r pwyllgor fynd i'r afael ag ef, gydag is-grwpiau wedi'u ffurfio i asesu agweddau ar Lywodraethu, Marchnata a Chyfathrebu, gan ddiwallu anghenion gwahanol grwpiau oedran a chefndiroedd cymdeithasol, fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i hyrwyddo Teyrnas Dduw mewn byd sy'n newid.

Fel Cadeirydd, diolch o waelod calon i bawb sy'n hyrwyddo gwaith cyfrifoldeb cymdeithasol yn Esgobaeth Tyddewi, wrth i ni gyd-ymdrechu i gynnal ein hegwyddorion Cristnogol.

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Mrs Catrin Eldred, Rheolwr Plant Dewi

AELODAETH

Mae Cyngor Esgobaethol Tyddewi dros Gyfrifoldeb Cymdeithasol (CEGC) yn elusen gofrestredig, a Plant Dewi yw ei brif brosiect cymorth i deuluoedd. Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Dorrien Davies, yw'r Llywydd; yr Hybarch Eileen Davies yw'r Cadeirydd ac mae hyd at 14 aelod o'r cyngor, gyda'r Cadeirydd a 5 o'r aelodau yn Ymddiriedolwyr. Maen nhw i gyd yn cyfarfod 6 gwaith y flwyddyn.

YR AMCANION

Gweledigaeth Plant Dewi yw dyfodol lle gall pob teulu yng ngorllewin Cymru gyrraedd eu potensial llawn, byw mewn cymunedau ffyniannus, a magu plant hapus a hyderus. Eu cenhadaeth yw darparu cymorth cynhwysol, cymunedol a chyfleoedd ystyrlon lle mae teuluoedd yn cael eu grymuso i dyfu'n gryfach gyda'i gilydd – oherwydd mae pob teulu yn bwysig.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae hi wedi bod yn flwyddyn arall brysur iawn i Plant Dewi, gyda 2,942 o deuluoedd yn manteisio ar grwpiau a chanolfannau (3,528 o oedolion a 4,414 o blant), a 289 o fwndeli babanod wedi'u dosbarthu i deuluoedd mewn angen.

Yn ystod y flwyddyn hon, sicrhaodd Plant Dewi grant gwerth £398,078 gan raglen Pobl a Lleoedd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol ar gyfer grwpiau Sir Gaerfyrddin dros gyfnod o dair blynedd, ac o'r herwydd, llwyddwyd i i ddatblygu tri Grŵp Teuluoedd gyda'n Gilydd newydd. Erbyn hyn mae cyfanswm o 11 Grŵp Teuluoedd Gyda'i Gilydd ar draws Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro gyda grŵp newydd arall wedi'i gomisiynu gan Gyngor Sir Penfro hefyd. Mae Plant Dewi wedi bod yn llwyddiannus eto gyda'r tendr ar gyfer Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion, gan sicrhau'r gwaith am o leiaf 2 flynedd arall. Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud i ddatblygu system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid newydd ar gyfer Plant Dewi i fesur yn well yr effaith y mae'r prosiect yn ei chael ar deuluoedd sy'n manteisio ar grwpiau a chanolfannau ar draws yr esgobaeth. Mae'n waith sydd ar y gweill wrth i staff barhau i dderbyn hyfforddiant ac mae'r gronfa ddata yn cael ei phrofi'n drylwyr i sicrhau ei bod yn cyd-fynd ag anghenion y sefydliad. Mae canolfan Bwndel Babi Plant Dewi yng Nghaerfyrddin wedi cael ei hadnewyddu ac mae'n ofod cynnes a chyfeillgar i staff, gwirfoddolwyr a theuluoedd fel ei gilydd.

Mae Plant Dewi wedi bod yn rhan o Flwyddyn Esgobaethol Plant, Ieuenctid a Theuluoedd a thrwy'r gwaith hwn, gwelwyd cynnydd yn y gwaith o wella ymgysylltiad ag eglwysi mewn rhai ardaloedd. Ym mis Mai 2025, bu grŵp o staff, aelodau CEGC a chefnogwyr yn cymryd rhan mewn taith gerdded 26 milltir er budd Plant Dewi, gan godi arian mawr ei angen ar gyfer y prosiect, gan hybu ymwybyddiaeth o'r gwaith wrth gerdded o Walton East i Dyddewi. Mae strategaeth codi arian wedi cael ei datblygu, a bydd hyn yn galluogi'r prosiect i ystyried cynhyrchu incwm trwy drefnu digwyddiadau ac estyn allan am gymorth corfforaethol.

HERIAU ELENI

Bu'n her recriwtio dros y flwyddyn ddiwethaf, yn enwedig ar gyfer rolau oriau isel fel hwyluswyr grŵp (4.5 awr yr wythnos). Mae cyllid hefyd yn parhau'n fater o bwys, gyda galw a chostau cynyddol ar y naill law a llai o gyllid grant ar y llall.

EDRYCH YMLAEN

Dros y flwyddyn i ddod, bydd Plant Dewi yn gwella ei ddefnydd o gronfa ddata Views i wella'r gwaith o fonitro a mesur effaith ar draws y sefydliad. Bydd Cydlynydd Gwirfoddolwyr, sy'n cael ei ariannu gan grant Gwirfoddoli Cymru CGGC, yn cael ei recriwtio i gryfhau recriwtio, hyfforddiant a chadw gwirfoddolwyr. Bydd y gwaith cynllunio ar gyfer 25 mlwyddiant Plant Dewi yn 2027 yn dechrau hefyd, a bydd strategaeth codi arian yn cael ei rhoi ar waith i nodi'r garreg filltir hon.

Adroddiad Cynghorydd Bywyd Gwledig Esgobaeth Tyddewi **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026
Awdur: y Parchedig Wyn Maskell

AELODAETH Y BWRDD

Mae'r bwrdd Ymgynghorwyr Gwledig yn cwrdd bob yn ddeufis a'r swyddog arweiniol yw Hermione Morris (St Asaph). Mae portffolio ymgynghorwyr materion gwledig yn cael ei reoli gan Esgob John Lamas (Esgob Abertawe ac Aberhonddu). Yr aelodau yw Parch Victoria Ashley (Llandaf) Parch Lea Ryder (Mynyw) Parch Wyn Maskell (Esgobaeth Tyddewi) Parch Andrew Perrin (Abertawe ac Aberhonddu), Parch Llewelyn Moules Jones (Esgobaeth Bangor).
Mae'r grŵp yn ceisio cwrdd tair gwaith y flwyddyn.

YR AMCANION

Prif amcanion y grŵp yw ymgysylltu gyda'r holl faterion sy'n ymwneud ag ardaloedd gwledig ac i gyfleu'r materion hynny i'r Esgobaethau. Mae'n bwysig i weithio gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio o fewn ardaloedd gwledig, rhwydweithio a chefnogi yn ein rôl fel ymgynghorwyr materion gwledig. Mae'n hanfodol i hyrwyddo cynnyrch lleol ac i hwyluso cyfleodd i godi ymwybyddiaeth o fywyd gwledig, y sector amaeth a'r amgylchedd.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae'r grŵp wedi cwrdd yn rheolaidd i drafod materion sy'n ymwneud â bywyd gwledig.
Fe gynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus yn Llandrindod ym mis Hydref 2025 i bobol sydd ag angerdd tuag at faterion gwledig. Cafwyd ystod eang o siaradwyr sy'n ymwneud â gweinidogaethu mewn ardaloedd gwledig. Trefnwyd y gynhadledd gan Athrofa Sant Padarn yng Nghaerdydd. Hyderwn y bydd y mynychwyr yn medru defnyddio'r hyn y maent wedi dysgu a'i rhannu yn ei hardaloedd gweinidogaethol.

Fe gynhaliwyd gwasanaeth Diolchgarwch llwyddiannus iawn yn Hydref 2025 yng Nghaffi Mart Caerfyrddin. Fe godwyd £520 ar y noson ac mi rannwyd yr elw rhwng elusen *Plant Dewi* a *Thir Dewi*. Cafwyd anerchiad arbennig gan Esgob Tyddewi, Dorrien Davies gyda nifer o unigolion eraill yn cymryd rhan. Y nod yw cynnal noson o'r fath eto rhywbryd ym mis Medi/Hydref. Mae'n gyfle i ddod a phobol at ei gilydd i ganu emynau diolchgarwch ac i rannu yn wir neges yr Efengyl.

HERIAU ELENI

Mae ein hardaloedd gwledig yn gwynebu nifer o heriau, megis costau cynyddol mewn ynni, newidiadau i reolau treth etifeddiaeth, a phroblemau iechyd meddwl o fewn ein cymunedau.
Rhaid i ni gydnabod fod teuluoedd Cefn Gwlad Cymru yn hanfodol i economi ein cymunedau, yn ogystal â'r gwaith pwysig maent yn cyflawni i ddiogelu cyflenwad bwyd.

EDRYCH YMLAEN

Rydym yn bobol sy'n credu yn yr Efengyl. Mae rhan fwyaf o Eglwysi'r Esgobaeth mewn ardaloedd gwledig ac rydym yn cydnabod cymaint yw cyfraniad ein Heglwysi i les a diwylliant ein Hesgobaeth.

Pwyllgor y Gymraeg a Dwyieithrwydd **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Y Canon Angharad James, Swyddog y Gymraeg, Cadeirydd

AELODAETH Y PWYLLGOR

(2026) Parch Ganon Angharad James (Cadeirydd), Yr Esgob, Hyb Eileen Davies, Hyb Ddr Matthew Hill, Hyb Paul Mackness, Parch Ganon Richard Davies, Parch Jean Voyle Williams, Parch Rhian Morgan, Parch Wyn Maskell, Mrs Eluned Rees, Mrs Mary Davies, Mr Rob Jones, Mrs Mari Hughes, a Miss Emma O'Connor (Ysgrifennydd).

Cyn-aelodau (oedd yn gwasanaethu yn ystod cyfnod yr adroddiad)
Canon Ganghellor Dewi Roberts, Parch Nicholas Bee, a Mrs Hazel Evans.

YR AMCANION

Hyrwyddo agwedd gadarnhaol yn ein defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn yr Esgobaeth a meithrin ymwybyddiaeth bod y defnydd o'r Gymraeg nid yn unig yn fuddiol, ond yn elfen allweddol o'n cenhadaeth dros Grist. Ac fel Pwyllgor ceisiwn ein gorau i sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn weladwy – ac y defnyddir y Gymraeg yn naturiol yn ein gwasanaethau a'n taflenni gwasanaethau ac ymhob agwedd o fywyd a chenhadaeth yr Eglwys.

CYFLAWNIADAU ELENI

- Gweithio tuag at Eisteddfod y Garreg Las – cynllunio beth fydd ym mhabell yr Esgobaeth a'r rhaglen yn yr Eglwys Gadeiriol
- Gwasanaethau uniaith Gymraeg – e.e. gwasanaethau Plygain
- Swyddog y Gymraeg newydd wedi dechrau ym mis Ionawr 2026
- Cyfrannu at *Agored i Dduw* (Sicrhau defnydd o'r iaith a chelfyddyd Gymraeg).

HERIAU ELENI

Bu cyfnod sylweddol lle nad oeddwn yn medru cwrdd. Rydym wedi ail-gydio yng ngwaith y Pwyllgor ers y flwyddyn newydd.

EDRYCH YMLAEN

- Mis Awst 2026 - Eisteddfod y Garreg Las – cynllunio a chyfranu at babell yr Esgobaeth
- Creu rhwydwaith WhatsApp i gysylltu clerigwyr sy'n siarad/dysgu Cymraeg at ei gilydd
- Datblygu rhan o'r wefan esgobaethol i hyrwyddo Gwaith y Pwyllgor ac adnoddau Cymraeg
- Trefnu cynhadledd ar genhadaeth (a ohiriwyd)
- Trefnu encil trwy gyfrwng y Gymraeg

Eglwys Gadeiriol Tyddewi a Tŷ'r Pererin **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Y Tra Pharchedig Sarah Rowland Jones, Deon

AELODAETH

Mae'r Deon a Chabidwl Eglwys Gadeiriol Tyddewi yn elusen gofrestredig, gyda'r Corff Ymddiriedolwyr yn uwch glerigion yr Esgobaeth: y Deon, Archddiaconiaid a Chanonau, a benodwyd gan yr Esgob. Tŷ'r Pererin yw Canolfan Addysg a Phererindod yr Eglwys Gadeiriol, ac mae'n gweithredu yn hen adeilad yr ysgol, sy'n eiddo i Gyfeillion Eglwys Gadeiriol Tyddewi. Mae ei waith yn cael ei arwain gan y Canon Bugeiliol, y Parchedig Ganon Sheridan Angharad James. Ymddeolodd Mrs Janet Ingram, y Swyddog Addysg a Phererindod llawn amser, ym mis Mehefin 2026, ac mae cynlluniau yn esblygu ar gyfer cyfnod newydd o'r gwaith hwn.

YR AMCANION

Amcanion cofrestredig Eglwys Gadeiriol Tyddewi yw hybu crefydd Gristnogol yr Eglwys yng Nghymru er budd y cyhoedd. Yn benodol, hybu cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru yn yr Eglwys Gadeiriol a thrwy'r Eglwys Gadeiriol trwy hyrwyddo'r datganiad ffydd a ddisgrifir yn arbennig yn y canlynol: Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru; Siarter Frenhinol 1919; Deddf yr Eglwys yng Nghymru 1914; Deddf yr Eglwys yng Nghymru (Natur Tymhorol) 1919. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn croesawu ymwelwyr fel Pererinion, gan weddïo bod pawb sy'n ymweld yn synhwyro cariad gwaredol Duw, yn clywed galwad Crist i'w ddilyn, ac yn cymryd y cam nesaf y mae'n ei roi gerbron pob un ohonom.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae'r Eglwys Gadeiriol yn parhau'n brysur, gyda blwyddyn fywiog arall yn dathlu'r calendr litwrgaidd, ochr yn ochr â llawer o wasanaethau a digwyddiadau arbennig, ar gyfer grwpiau lleol, grwpiau esgobaethol a grwpiau ehangach. Cynyddodd presenoldeb, yn enwedig dros y Nadolig, yr Wythnos Sanctaidd a'r Pasg. Mae cerddoriaeth yn ffynnu, dan arweiniad yr Is-Ddeon Ganon Leigh Richardson, gyda gŵyl lwyddiannus yn cael ei chynnal, a chyngherddau eraill yn cael eu hyrwyddo a'u cynnal yn ystod y flwyddyn. Mae'r Eglwys Gadeiriol yn ymddangos yn rheolaidd ar y teledu, y radio a'r cyfryngau eraill, yn Gymraeg a Saesneg. Cynhaliodd Tŷ'r Pererin nifer cynyddol o ddigwyddiadau a gweithgareddau, ar gyfer pererinion unigol a grwpiau, ysgolion, Ardaloedd Gweinidogaeth Lleol/plwyfi, a'r gymuned leol. Cwblhawyd Adroddiad Gofwy yr Esgob Dorrien, adolygiad cyffredinol sy'n mynd law yn llaw â *Tocio am Dyfiant*, ac mae argymhellion yn cael eu gweithredu. Penodwyd pensaer newydd a ymgymerodd â'r Arolwg Pum Mlynedd. Ariannwyd arolygon sylweddol gyda rhai atgyweiriadau yn cael eu hariannu gan Cadw/y Bwrdd Llywodraethol, a pharatowyd cais ar gyfer Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol.

HERIAU ELENI

Mae effeithiau Covid yn dal i siapio'r economi dwristiaeth leol: mae nifer yr ymwelwyr wedi setlo i fod ar lefel sydd tua 30% yn is na'r lefelau cyn y pandemig, gydag effaith negyddol o ganlyniad ar ffrwd incwm fawr. Er bod y tîm croeso a'r siopau yn parhau i gynyddu rhoddion a gwariant y pen, a bod y system roi well trwy Wi-Fi yn dangos addewid, mae'r sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn rhy fregus i ni allu llaesu dwylo.

EDRYCH YMLAEN

Mae'r Adroddiad Gofwy a'r Arolwg Pum Mlynedd yn pennu gweledigaeth newydd ar gyfer datblygu bywyd yr Eglwys Gadeiriol ymhellach, gan gynnwys staff ychwanegol a chynllunio 30 mlynedd ar gyfer gofal adeiladau. Mae hyn yn gofyn am gyllid ychwanegol sylweddol, sydd (fel gyda bron pob eglwys gadeiriol yng Nghymru a Lloegr) y tu hwnt i adnoddau mewnol. Mae'r cais presennol i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol ar gyfer datblygu prosiect, fel y gellir cyflwyno cais cadarn yn 2027 am brosiect cynhwysfawr i wella a chryfhau: gwarchod a diogelu treftadaeth; mynediad a dehongli; cadernid amgylcheddol; a chapasiti cyfundrefnol ac ariannol.

Undeb y Mamau **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Y Parch Glenys Payne, Llywydd Undeb y Mamau yr Esgobaeth

AELODAETH Y BWRDD

Llywydd yr Esgobaeth, tri Is-lywydd yr Archddiaconiaeth, a dau Ymddiriedolwr Cyffredinol o bob Archddiaconiaeth (Ymddiriedolwyr Cyffredinol: dau o bob Archddiaconiaeth i gysylltu â'r Is-lywyddion i hidlo gwybodaeth i lawr i arweinwyr y canghennau). Mae'r Caplan, yr Ysgrifennydd, y Trysorydd a'r Arweinydd Diogelu yn mynychu ond nid ydynt yn pleidleisio ac nid ydynt yn Ymddiriedolwyr.

YR AMCANION

Ein Gweledigaeth yw byd lle mae cariad Duw yn cael ei arddangos trwy berthnasoedd cariadus, parchus a ffyniannus, y mae aelodau yn eu ceisio trwy weddi, ymgyrchu a thrwy alluogi eraill. Ein cenhadaeth yw dangos ein ffydd Gristnogol trwy drawsnewid cymunedau ledled y byd.

CYFLAWNIADAU ELENI

- Mae ein partneriaeth â *Plant Dewi* yn parhau gydag Undeb y Mamau yn cefnogi a chymryd rhan weithredol gyda'r cynllun Bwndel Babi. Rydym hefyd wedi cefnogi *Plant Dewi* trwy'r cynllun **A**way **F**rom **I**t **A**ll (AFIA), un o'n prosiectau mwyaf hirhoedlog, trwy gyfrannu at deithiau teuluol a diwrnodau allan.
- Mae ein prosiectau Morwyr, Lloches i Fenywod a *Croes yn y Boced* yn parhau, ac mae llawer o brosiectau ysbytai a chymunedol lleol sy'n cael eu rhedeg gan ganghennau hefyd wedi'u cyflwyno.
- Rydym wedi symleiddio fformat ein cyfarfodydd Esgobaethol. Mae tri 'chynulliad', un ym mhob Archddiaconiaeth. Rydym wedi parhau gyda sgwrs fer gan siaradwr ac yna trafodaeth anffurfiol gyda'r aelodau.
- Cynhaliwyd diwrnod o ddathlu ym mis Awst yn yr Eglwys Gadeiriol i ddathlu pen-blwydd ein sefydlydd, Mary Sumner. Uchafbwynt y dathlu oedd gwasanaeth o Ddiolchgarwch.

HERIAU ELENI

Unwaith eto, un o'r heriau mwyaf yw cynnal a meithrin canghennau presennol. Rydym yn ddiolchgar iawn i'n clerigion iau sy'n ein helpu yn y fenter hon gyda'r nod o gynyddu aelodaeth. Gyda'r rhan fwyaf o'n haelodau yn ymwneud yn frwd â bywyd yr Eglwys, mae wedi bod ychydig yn anodd ar adegau i barhau â'r weinyddiaeth mewn cymaint o wahanol ffyrdd.

EDRYCH YMLAEN

Eleni, rydym yn dathlu 150 mlwyddiant sefydlu Undeb y Mamau. Rydym wrthi'n trefnu ymweliad gan ein Llywydd Byd-eang ym mis Mai. Bydd Dathliad 150 mlwyddiant yn yr Eglwys Gadeiriol ym mis Mehefin. Bydd Gwasanaeth hefyd yn Eglwys Gadeiriol Sant Paul yn Llundain, ac mae rhai o'n haelodau ynghlwm wrth hwnnw. Gan dderbyn arweiniad gan ein Clerigion a'n Bwrdd Canolog, mae ein Hymddiriedolwyr yn parhau i edrych ar ffyrdd newydd o hwyluso canghennau presennol. Rydym hefyd yn bwriadu annog mwy o bobl ifanc i gofleidio gwaith Undeb y Mamau gyda'r bwriad iddyn nhw ddod yn gefnogwyr ac yn aelodau maes o law. Rydym yn derbyn y bydd hyn yn cymryd amser. Gweddïwn y bydd Duw yn ein tywys i gyd-gerdded â'n Clerigion i hyrwyddo Ei waith yn y gornel hon o'r winllan.

Urdd Clochyddion Esgobaeth Tyddewi

AGENDWM 9

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Ms Glynis Llewelyn, Ysgrifennydd Urdd y Clochyddion

AELODAETH

Mae Urdd y Clochyddion yn cynnwys y Llywydd, sef yr Esgob, yr Is-lywydd y Parch Jim Flanagan, ac 8 swydd:

Meistr yr Urdd (Cadeirydd)	Meistr Canu'r Clychau	Trysorydd	Ysgrifennydd
Swyddog Addysg ac Ieuenctid	Swyddog Adfer Clychau	Swyddog Diogelu	Cynrychiolydd y Cyngor Canolog
Mae 152 o aelodau yn cynrychioli 17 clochdy ar draws yr Esgobaeth			

YR AMCANION

- Cydnabod gwir statws clochyddion fel cynrychiolwyr yr eglwys
- Hyrwyddo canu clychau ar gyfer addoli ac ar achlysuron addas eraill
- Hyrwyddo gofal ac adfer clychau
- Recriwtio a hyfforddi clochyddion
- Hyrwyddo a hybu canu'r amrywiadau

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae Urdd y Clochyddion wedi bod yn dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed trwy seinio'r caniadau a'r chwarter caniadau mewn llu o eglwysi ar draws yr Esgobaeth yn ystod y flwyddyn.
Mae'r gwaith o adnewyddu ac ychwanegu at glychau yn Eglwys y Forwyn Fair, Penfro, wedi'i gwblhau'n llwyddiannus ac mae'r clychau bellach yn canu'n rheolaidd.

HERIAU ELENI

Cynhyrchu incwm ar gyfer cynnal a chadw clychau a chlochdai i sicrhau hyfywedd parhaus canu clychau ar draws Urdd y Clochyddion. Mae problem dŵr yn gollwng yn dal i effeithio ar lawer o eglwysi gyda difrod posibl i'r adeiladwaith a'r seilwaith canu clychau, ynghyd â materion lechyd a Diogelwch posibl. Mae rhai grwpiau yn ei chael hi'n anodd recriwtio aelodau newydd.

EDRYCH YMLAEN

Mae Urdd y Clochyddion yn cynnal arolwg o'i holl aelodau er mwyn gwneud yn siŵr y gall pawb fod yn rhan o'r ymdrech i helpu i sicrhau bod y sefydliad yn gallu diwallu anghenion clochyddion y presennol a'r dyfodol.

Adroddiad Cymdeithas Dai yr Esgobaeth **AGENDWM 9**

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Ionawr – Rhagfyr 2025

Awdur: Mrs N Evans BA FCCA, Ysgrifennydd Anrhydeddus

AELODAETH Y PWYLLGOR

Cyfarfu'r Pwyllgor ar dri achlysur yn ystod y flwyddyn. Mae'n cynnwys, Esgob Tyddewi, y Gwir Barchedig Dorrien Davies, yn Llywydd, yr Hybarch Ddr M Hill yn Gadeirydd, Mrs Nia Evans yn Drysorydd, Ms Emma O'Connor yn Ysgrifennydd, Archddiaconiaid Caerfyrddin, Tyddewi ac Aberteifi, a 5 person lleyg.

YR AMCANION

Mae'r Gymdeithas Dai yn darparu cartrefi rhent i glerigion wedi ymddeol, neu wŷr/gwragedd gweddw a dibynyddion clerigion. Mae'r Gymdeithas yn ymdrechu i gadw ei thai mewn cyflwr da ac yn ceisio darparu gwasanaeth atgyweirio ymatebol ac effeithlon i'w thenantiaid.

CYFLAWNIADAU ELENI

- Yn ystod y flwyddyn ni fu unrhyw newid mewn tenantiaeth ac nid oedd yr un eiddo gwag ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cynhaliwyd adolygiad rhent, a arweiniodd at gynnydd rhent o 2.5% o fis Ionawr 2026.

Cyfanswm yr incwm ar gyfer 2025 oedd £64,891. Cyfanswm y gwariant ar Weithgareddau Elusennol oedd £49,737. Y gwarged ar y Cyfrif Incwm a Gwariant oedd £15,154. Ar ddiwedd y flwyddyn, dangosodd y fantolen gyfanswm cronfeydd o £216,885.

EDRYCH YMLAEN

Bydd y Gymdeithas Dai yn gwneud pob ymdrech i ddal ati i gynnal ei stoc dai mewn cyflwr da, a hefyd i gynnig gwasanaeth atgyweirio ymatebol i'w thenantiaid.

Cursillo

AGENDWM 9

ADRODDIAD CRYNO BLYNYDDOL

Cyfnod adrodd: Pasg 2025 – Pasg 2026

Awdur: Caroline Llewellyn, Cyfarwyddwr Lleyg

AELODAETH

Mudiad o'r Eglwys dan arweiniad pobl ordeiniedig a lleyg sy'n darparu dull lle mae Cristnogion yn cael eu grymuso i dyfu trwy weddi, astudiaeth a gweithred ac yn cael eu galluogi i rannu cariad Duw gyda phawb – dyna yw Cursillo (gair Sbaeneg sy'n cael ei ynganu Cur-see-oh). Mae wedi bod ar waith yn yr Esgobaeth gyda chaniatâd yr Esgob ers 1998 ac ers hynny mae 171 o bobl wedi mynychu Penwythnos Cursillo. Mae croeso i unrhyw un sydd wedi'i fedyddio yn y ffydd Anglicanaidd i ymuno â ni.

YR AMCANION

Amcanion Cursillo yw adnewyddu ymrwymiad Cristnogol Cristnogion Anglicanaidd a meithrin y ffordd yr ymarferir egwyddorion Cristnogol yn eu bywydau bob dydd, er mwyn helpu eraill i ddarganfod ac arddel ffordd o fyw Gristnogol, trwy wahanol ddulliau gan gynnwys darparu cyrsiau addysg grefyddol byr.

CYFLAWNIADAU ELENI

Mae Esgobaethau Tyddewi ac Abertawe ac Aberhonddu yn parhau i weithio gyda'i gilydd i hybu Cursillo yn y rhan hon o Gymru.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ardal (a elwir yn Ultreyas, gair Sbaeneg arall) yn Aberteifi, Aberhonddu, Casllwchwr, Tyddewi, Tredeml a Dafen a chafwyd un cyfarfod drwy Zoom a oedd yn caniatáu i'r rhai na allant deithio bellach, oherwydd pellter neu salwch, i ymuno â ni yn rhithwir.

Mynychodd sawl Aelod y cyfarfod Ultreya cenedlaethol yn Durham. Yno, daeth criw o gynrychiolwyr o'r 25 Esgobaeth Cursillo o bob cwr o'r wlad ynghyd, a chynhaliwyd gorymdaith dystio i'r Eglwys Gadeiriol lle cynhaliwyd gwasanaeth Cymun.

Uchafbwynt ein blwyddyn oedd y 26ain Penwythnos Cursillo blynyddol yn Llangasty Tal-y-Llyn, Aberhonddu, pan groesawyd Pererinion neu gyfranogwyr newydd i Cursillo. Roedd yn benwythnos llawn llawenydd o gariad, cymdeithas a thrafod.

HERIAU ELENI

Er nad oes gan ein grŵp Cursillo unrhyw swyddi gwag ar ei Ysgrifenyddiaeth ar hyn o bryd, mae annog pobl i gamu ymlaen i ymgymryd â rolau arwain ar lefel leol a chenedlaethol yn her. Mae sawl grŵp bach (Grwpiau 4ydd Dydd) yn parhau i gyfarfod yn rheolaidd – yng Nghaerfyrddin, Aberteifi, Aberdaugleddau, Aberhonddu, Gorseinon ac ar Zoom. Dyma 'fara menyn' Cursillo lle mae aelodau'n cefnogi ac yn dal ei gilydd yn atebol am ein bywydau yng Nghrist. Fodd bynnag, byddai'n dda annog mwy o Cursillistas i gyfarfod gyda'i gilydd yn rheolaidd.

EDRYCH YMLAEN

Mae mwy o Ultreyas wedi'u cynllunio – yng Nghaeriw, Llansadwrn, Hubberston, Llandeilo a Chaerfyrddin ynghyd â thaith i Gaerfuddai (Chichester) ar gyfer yr Ultreya Cenedlaethol – ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda i gynllunio'r penwythnos nesaf, a gynhelir rhwng 10 ac 13 Medi 2026.

RHEOLAU SEFYDLOG CYNHADLEDD ESGOBAETHOL TYDDEWI

1. Bydd pob cyfarfod o'r gynhadledd yn agor ac yn cloi gyda gweddi.

2. Pan fydd y Llywydd wedi eistedd yn y Gadair, ni fydd unrhyw aelod yn dal i sefyll, ac eithrio wrth annerch y Cadeirydd.

3. Tra ei fod yn bresennol yn y Gynhadledd, gall y Llywydd benodi aelod arall o'r Gynhadledd i gadeirio'r Gynhadledd yn ei le.

4. Pan fydd dau aelod neu fwy yn codi ar yr un pryd i annerch y Cadeirydd, bydd y Cadeirydd yn penderfynu pa un ohonynt fydd yn siarad gyntaf.

5.

a) Ni fydd areithiau gan gynigydd ac eilydd unrhyw gynnig yn fwy na deng munud. Gall y cynigydd hefyd hawlio pum munud ar gyfer ateb.
b) Ni fydd unrhyw araith arall yn fwy na phum munud.
c) Caiff y Cadeirydd, gyda chaniatâd y Cyfarfod, ymestyn yr amser ar gyfer araith.
d) Ni fydd yr adran hon yn berthnasol i Anerchiad y Llywydd.

6. Ni chaniateir i unrhyw aelod siarad mwy nag unwaith ar yr un mater, ac eithrio i esbonio neu i leisio pwynt o drefn, oni bai ei fod yn gynigydd cynnig sy'n arfer yr hawl i ymateb.

7. Pryd bynnag y bydd y Cadeirydd yn codi yn ystod dadl, bydd unrhyw aelod sy'n siarad neu'n cynnig siarad yn eistedd i lawr ar unwaith.

8. Os, yn ystod dadl, y bydd 30 aelod yn codi yn eu priod leoedd ac yn mynnu bod pleidlais yn cael ei bwrw ar yr adeg honno, bydd y Cadeirydd yn gofyn y cwestiwn hwnnw i'r cyfarfod i'w benderfynu trwy ddangos dwylo.

9. Os yw'r cyfarfod yn cymeradwyo'r alwad am bleidlais, bydd y Cadeirydd yn cynnig yr hawl i ateb i'r cynigydd yn gyntaf ac yna symud ymlaen yn uniongyrchol i'r bleidlais.

10. Dim ond busnes a nodir ar y Papur Agenda a fydd yn cael ei drafod. Anfonir yr Agenda at holl aelodau'r Gynhadledd gyda'r hysbysiad o gyfarfod a'r Adroddiadau o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg cyn dyddiad y cyfarfod.

11.

a) Rhaid cyflwyno unrhyw gwestiwn sy'n gofyn am ateb, ac unrhyw gynnig y mae aelodau yn dymuno ei gynnig yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd Lleyg y Gynhadledd o leiaf saith diwrnod cyn dyddiad y cyfarfod.

b) b) Os bydd unrhyw aelod yn dymuno cyflwyno cynnig ac eithrio ar gyfer Cyfarfod Arbennig, dylid ei anfon at yr Ysgrifennydd Lleyg mewn da bryd i'w ystyried gan y Pwyllgor Sefydlog yn ei gyfarfod yn union cyn cyfarfod y Gynhadledd.

12. Mewn cyfarfod, ac eithrio Cyfarfod Arbennig, gall y Llywydd, yn ôl ei ddisgresiwn, ganiatáu eitemau busnes eraill o natur arferol nad ydynt yn ymddangos ar y Papur Agenda.

13. Rhaid i'r holl welliannau fod yn ysgrifenedig, wedi'u llofnodi gan y cynigydd a rhaid eu trosglwyddo i'r Ysgrifenyddion, os yn bosibl cyn y cyfarfod.

14. Nid yw'n dderbyniol cyflwyno gwelliant i unrhyw welliant.

15.

a) Nid oes angen darllen cynnig sydd wedi'i argraffu ar y Papur Agenda cyn ei gyflwyno.

b) Bydd pob cynnig neu welliant arall yn cael ei ddarllen yn union cyn cynnal y bleidlais yn ei gylch.

16. Pan fydd galwad am bleidlais, penodir rhifwyr o Urddau'r Clerigion a'r Lleygion gan y Llywydd neu'r Cadeirydd.

17. Bydd y Pwyllgor Sefydlog yn cael ei awdurdodi i weithredu ar ran y Gynhadledd Esgobaethol, rhwng ei gyfarfodydd, ynghylch unrhyw fater y tybia Esgob yr Esgobaeth sy'n angenrheidiol, a bydd adroddiad yn ei gylch yn cael ei baratoi i'r gynhadledd ar gyfer ei chyfarfod nesaf.

18. Gall unrhyw aelod siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg.

19. Bydd Cofnod o Bresenoldeb yn cael ei gadw.

20. Ni fydd cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn dderbyniol oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol yn codi ar eu traed i'w gefnogi.

21. Bydd y Rheolau Sefydlog hyn yn cael eu hargraffu a'u dosbarthu gyda'r Agenda ar gyfer pob cyfarfod o'r Gynhadledd.